

L L L A I S

CAMU 'MLAEN

CAMLAS CLYDACH



Mae Cymdeithas Camlas Cwm Tawe wrthi yn gyson yn glanhau gwahanol rannau o'r gamlas. Datblygiad newydd yw defnyddio'r gamlas rhwng Parc Coedgwilym a Threbannws ar gyfer hamdden - canwio.

Bydd ar agor bob dydd Sul rhwng 11 a 3 o'r gloch. Bydd hyn hefyd yn gyfle i ymweld â Chanolfan Parc Treftadaeth - arddangosfa sy'n rhoi hanes y gamlas a phentref Clydach. Rydym yn ffodus yn y pentref o gael sawl parc hamdden ar gyfer ein defnydd: Coedgwilym, Forge Fach, Cae Martin yng Nghaemawr ac Ynystawe gerllaw. Gobeithio bydd y cyhoedd yn defnyddio'r adnoddau naturiol hyn. Diolch am y llu o wirfoddolwyr sydd wrthi'n gyson yn cadw'r gamlas yn lân ac hefyd yn gofalu am y cynllun newydd.



ANNOG POBL I SIARAD CYMRAEG YN GYNTAF YN YSTRADGYNLAIS

Mae Ystradgynlais yn un o'r ardaloedd yng Nghymru lle cynhelir ymgyrch Cymraeg yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Ymgyrch yw hon sy'n ceisio annog siaradwyr Cymraeg rhugl mewn ardaloedd Cymraeg traddodiadol i siarad Cymraeg yn gyntaf wrth ddefnyddio'r gwasanaethau yn eu cymunedau o ddydd i ddydd.



Mae'r fenter yn ymateb i bryderon fod siaradwyr Cymraeg yn aml yn dechrau sgysiaid yn Saesneg mewn siopau, banciau, bwytai a gwasanaethau a gweithgareddau eraill. Mae'r sgwrs yn tueddu i barhau yn yr iaith y mae'n cychwyn – a dau siaradwr Cymraeg rhugl yn aml yn dal ati i drafod yn gyfan gwbl yn Saesneg.

Mae'r ymgyrch yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gadw'r iaith yn fyw yn yr ardaloedd Cymraeg traddodiadol i sicrhau y bydd yr iaith yn dal i ffynnu. Wrth annog siaradwyr Cymraeg rhugl i gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg y nod yw sicrhau fod yr iaith yn dal yn rhan o'u bywyd bob dydd.

Fel rhan o'r ymgyrch cynhaliodd PartnerIAITH Aman Tawe barti ar thema Gŵyl Ddewi yn Neuadd Les Ystradgynlais ddechrau fis Mawrth.

Yn dilyn dangosiad o ffilm boblogaidd S4/C, 'Ble Mae Cyw?', cafwyd gweithdy creadigol gyda Ceri Havard o TWF Brycheiniog a Tawe Uchaf lle roedd cyfle i blant greu cerdyn a chrefftau eraill.

Meddai, Sarah Gwilym, Swyddog Datblygu, PartnerIAITH Aman Tawe, sy'n gyfrifol am gydlynu'r Cynllun Gweithredu Iaith ar gyfer Ystradgynlais: "Roedd e'n brynhawn hyfryd. Roedd lot o sbort i'w gael a gobeithio ein bod ni wedi llwyddo i gyfleu'r neges ei bod hi bob amser werth siarad Cymraeg yn gyntaf bob amser."

Yn y llun mae Heledd Angharad Jones (chwith) gyda Sarah Gwilym. Daeth Heledd draw gyda'i thad, Gareth, ac fe gynlluniodd gerdyn lliwgar.

Dwynwen Williams

Bûm mewn dau gyfarfod yn Abertawe ym mis Mawrth, cyfarfodydd a gynhyrfodd gryn dipyn arnaf.

MASNACH DEG

Grŵp Masnach Deg y Brifysgol oedd wedi trefnu'r cyntaf. Daeth Taysir Arbasi i adrodd am sefyllfa'r Palestinaid, ac yn arbennig am eu trafferthion yn ceisio tyfu eu cynnyrch a'i gael i'r farchnad.

Mae coed olewydd yn bwysig iawn i'r Palestinaid. Yn ogystal â bod yn brif ffynhonnell eu hincwm mae gwerth diwylliannol a chymdeithasol iddynt. Dros bythefnos casglu'r ffrwyth ym mis Hydref bydd y teulu cyfan yn bwrw i'r gwaith, ac yn dathlu'r cynhaeaf. Mae ambell goeden yn eu clymu'n dynn iawn wrth eu hanes a'u hynafiaid, a rhai ohonynt yn 4,000 blwydd oed!

Mae setlwr Israelaidd sydd wedi codi treflannau ar diroedd Palesteinaidd yn y Llain Orllewinol, a hynny'n groes i'r gyfraith ryngwladol, yn gallu bod yn beryglus iawn ac yn aml yn rhwystro'r ffermwyr rhag gofalu am eu coed, a hyd yn oed yn llosgi'r coed. Problem fawr arall yw sychdwr, achos bod dŵr yn cael ei ddargyfeirio. Caiff 86% o ddŵr Dyffryn Iorddonen ei ddefnyddio gan yr Israeliaid, llawer ohono mewn pyllau nofio.

"Mae'r Israeliaid yn ei gwneud yn fwy anodd o hyd i ni fedru ein cynnal ein hunain," meddai. Mae'r rhwystrau a roir yn ffordd cael yr olew a chynnyrch Palesteinaidd arall i'r porthladd yn stori dorcalonus arall. Mae eu bywyd yn frwydr barhaus yn erbyn tlodi. Nid natur sy'n gyfrifol am y tlodi, ond pobl. "Dy'n ni ddim yn chwilio am elusen," meddai, "dim ond am gyfle teg i werthu ein cynnyrch. Mae pob potel o olew a werthwn yn golygo medru prynu potel o laeth i'n plant."

BRUCE KENT

Grŵp CND Abertawe oedd wedi trefnu'r ail gyfarfod a fynychais. Bu Bruce Kent yn ymgyrchu dros heddwch ers blynyddoedd maith, ac ni chollodd ddim o'i huodledd na'i frwdfrydedd.

Nododd resymau dros ddileu arfau niwclear:

- Mae llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi llofnodi dogfen gyfreithiol (fel y llywodraethau niwclear eraill) i leihau eu nifroedd yn sylweddol.

- Dydyn nhw ddim yn cynnig diogelwch. Wnaeth yr Ariannin ddim peidio ag ymosod ar y Malfinas er i ni fod ag arfau niwclear. Fyddan nhw'n atal dim ar derfysgwyr – prif berygl arfog ein byd bellach. Byddent yn berygl bywyd yn y dwylo anghywir. Mae damwain yn bosiblwydd real iawn.

- Mae'r gost ariannol yn aruthrol. Mae'r byd yn gwario £1.7 triliwn bob blwyddyn ar baratoi at ryfel. Bwriad y Deyrnas Gyfunol yw gwario tua £100 biliwn dros y blynyddoedd nesaf yn diweddarau system Trident. Meddyliwch beth ellid ei wneud â'r arian hwnnw, a hynny ar adeg pan yw'r tlawd yn cael eu gwasgu fwyfwy a chymaint o angen ym myd addysg a gofal iechyd.

PA SYNNWYR?

Sut gall neb ddadlau dros y pethau hyn?

Ydy hi ddim yn amlwg bod ymddygiad yr Israeliaid yn annynol? Ydy hi ddim yn amlwg bod arfau Trident yn ddychrynllud o beryglus ac yn llyncu adnoddau; fel tasen ni yn bwydo neidr wenwynig anferth gymaint ag y myn a honno'n medru llyncu miliynau o bobl ar un trawiad, a'r un pryd yn llwgu'r defaid a'r gwartheg sy'n gynhaliueth i ni? Ai'r gwir reswm dros y gwario gwyllt yw fod rhywrai'n dal i gredu fod Prydain yn Fawr?

Dewi M. Hughes

Ariennir *Llais* yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Cofio Dafydd Rowlands

Noson o atgofion, darlenniadau a
ffilmiau
i goffáu y diweddar Archdderwydd a
Phrifardd
DAFYDD ROWLANDS

Canolfan y
Celfyddydau,
Pontardawe
Nos Wener,
2 Mai, 2014

Drysau'n agored am 6.45
i gychwyn yn brydlon am
7 yr hwyr.

Mynediad am ddim ond cynhelir raffl

Rhaglen yn cynnwys cyfraniadau gan
Rhian Morgan, Meirion Evans, Tegwyn
Jones, Dilwyn Jones a chyfle i weld un o
glasuron Licrys Olsorts.

Cysyllter â John Evans
01792 842853

llais@tiscali.co.uk
am fwy o fanylion

POBOL Y CWM

Brenda Evans

Yn Ystalyfera mae gwreiddiau Brenda, merch Gruff a Jenni Williams, a chwaer Eileen. O ysgol y Wern aeth i ysgol Ramadeg Ystalyfera. Wrth edrych yn ôl chwithig yw cofio mor Seisnigaidd oedd popeth yno, a hynny mewn ardal drwyadl Gymraeg.

Rhoddodd ei bryd yn ifanc ar fod yn nyrs; wnaeth hi ddim meddwl am yrfa arall o ddifri erioed. Aeth i hyffroddi yn ysbyty Llandochau, Caerdydd, ac ennill cymhwyster SRN. Gwnaeth ffrindiau da yn yr hostel, a mwynhau'r gwaith, ond roedd yr oriau yn hir. Digon cyffredin oedd dechrau am 7.30 yn y bore a gorffen am 8 yr hwyr. Bach oedd y pae hefyd - £9 y mis. Doedd dim modd dod adre yn aml gan mai diwrnod a hanner yr wythnos a gâi yn rhydd, ac roedd arian i brynu tocyn bws yn brin.

Ychydig wersi ffurfiol geid bryd hynny. Roeddech yn dysgu wrth wneud y gwaith. Dim ond o flaen y ffeinals ar ddiwedd y drydedd flwyddyn y ceid dosbarthiadau, pythefnos ohonynt. Roedd hynny'n wahanol iawn i heddiw, lle mae nyrsys yn cael eu hyffroddi mewn colegau, yn treulio amser mewn dosbarth, ac yn gweithio ond ychydig ar y wardiau.

Miss Foden oedd y famaeth, y metron, un oedd wedi'i haddysgu yn ysgol breifat Radine. Roedd yn ardderchog, meddai Brenda. "Mae arna i ddyled fawr iddi." Roedd yn daer i gadw safonau, ond yn trin pawb yn deg, a doedd dim o'r bwli o fetron welson ni mewn filmiau yn perthyn iddi.

Yn ysbyty St Thomas Llundain dechreuodd ar gwrs i fydwagedd, a'i gyflawni yn Nhreforys. Bod yn ymwelydd iechyd oedd ei bwriad gwreiddiol a phan gafodd gyfle i fod yn nyrs gymunedol ym Mlaenymaes a Phenlan roedd wrth ei bodd.

Erbyn hynny roedd Santes Dwynwen wedi bod wrth ei gwaith ac wedi tynnu Brenda a John at ei gilydd. Yng Nghwmbach, Aberdâr, y sefydlwyd eu cartre cynta. A bu Brenda yn fydwaig yn y gymuned. Ychydig iawn o'r mamau oedd yn fodlon mynd i ysbyty i roi genedigaeth, a châi Brenda ei chadw yn rhyfedd o brysur. Cofia i'w rhieni ddod draw dros



y Sul unwaith ond na welodd Brenda mohonynt am na ddaeth adre am ddeuddydd achos bod y galwadau ar sodlau ei gilydd drwy'r amser ac na welodd ei rhieni ar yr ymweliad hwnnw. Neges nyrs arall i'w chyflogwyr oedd "Rych chi'n lladd y ferch ifanc yna!"

Gwaith caled oedd hwnnw, yn Abertawe a Chwm Cynon, ymhlith pobl ddifreintiedig oedd â phob math o drafferthion, yn cynnwys tlodi. Cafodd groeso yn eu plith. Gwelodd gariad mawr at y plant yno. Roedd llawer teulu lluosog iawn. Y record oedd menyw yn geni deunaw o blant!

Penodwyd John yn bennaeth y Gymraeg yn Ysgol Ramadeg Ystalyfera, lle bu'n ddisgybl gynt. Ac wedi i Catrin gael ei geni daethant i fyw i Barc Kingrosia yn 1965 a bwrw i'r gymdeithas yng nghapel Hebron ac i fywyd Cymraeg Clydach a'r Cwm.

Wedi ailgydio yn y gwaith yn y man bu'n chwaer yn yr Adran Mamolaeth yn ysbyty Treforys, ac wedyn yn hyffroddi yn ysgol nyrsio Singleton cyn dod yn ôl i Dreforys i helpu cynllunio dyfodol y gofal i famau newydd a babanod.

Gwelodd llawer o newid, er gwell ac er gwaeth. Mae'n llawer haws siarad â meddygon erbyn hyn, ond ar y llaw arall mae cymaint o waith papur, o achos parodwydd pobl i droi at y llysoedd, yn bwyta'r amser y gellir ei roi i gleifion.

Mwynhaodd ei gwaith. Cafodd, meddai, "y fraint o fod gyda theuluoedd ar adegau pwysig iawn yn eu hanes." Braint iddynt hwythau'r teuluoedd oedd cael un mor fedrus ac ymroddgar a sensitif â Brenda i'w helpu.

Bu'n weithgar yn y gymuned, yn un o sefydlwyr Cangen Merched y Wawr yn y saith degau, a bu wrthi gydag eraill yn sefydlu'r Cylch Meithrin Cymraeg yn y pentref. Bu'n llywydd y Gangen am sawl blwyddyn.

Mae'n aelod gwerthfawr yng Nghapel y Nant, ac mae graen ar ei chyfraniad bob amser, yn llywyddu neu'n darllen neu'n annerch. Mae'n arweinydd i'r chwaeroliaeth ac fe'i gwelir hefyd yn Nhŷ Croeso yn helpu yn y Banc Bwyd. Gwna llawer o'r golwg hefyd, gan gynnwys bod yn gefn i John, ysgrifennydd yr eglwys dros llawer blwyddyn.

Caiff John a Brenda foddhad mawr a llawer o hwyl gyda'u hwyres Rosa, merch Catrin a Rob. Mae Rosa yn ymddiddori mewn llawer maes, yn canu gwahanol offerynau, yn adrodd a chanu ac yn arfer campau a chwaraeon, rhedeg yn arbennig. Caiff John a Brenda llawer trip yng nghysgod Rosa!

Caed hwyl yn ddiweddar wrth i'r ddau ddathlu eu priodas aur. Bu'n bartneriaeth arbennig a mawr yw dyled y gymuned iddynt ill dau.



CORNEL NATUR

Dewi Lewis

DINISTR WEDI'R DYMESTL

Rwyf am barhau gyda thema y Golofn Natur mis Mawrth. Caed sawl adroddiad yn y cyfryngau am yr adar môr a ddiroddedod yn sgil yr holl wyntoedd. Wrth ddarllen yr adroddiadau mae'r niferoedd a effeithiwyd yn syfrdanol. Effeithiwyd tua 20 o wahanol rywogaethau gan y gwyntoedd gyda'r mwyafrif o blith y Gwylog (Guillemot), Llurs (Razorbill) a'r Pâl (Puffin). Ar draeth Rhosili ar Benrhyn Gŵyr cafwyd adroddiadau am oddeutu 200 o Wylogiaid yn farw ar y traeth. Bu'r sefyllfa llawer gwaeth ar draethau yng Nghernyw lle cafwyd adroddiadau am 1,000 o adar marw ar y traethau yno. O'r



tri rhywogaeth uchod y Pâl mae'n ymddangos a ddiroddedod waethaf. Daethpwyd o hyd i 100 o adar marw ar draethau yma yn Mhrydain. Ymhellach i'r de mae'r sefyllfa wedi bod yn llawer gwaeth. Ar draethau de-orllewin Ffrainc cafwyd adroddiadau am 15,000 o Balod yn farw. Mae'r newyddion yma o bryder mawr i ni yma yng Nghymru gan fod poplogaeth iach o Balod yn nythu ar ynysoedd arfordirol Cymru. Bu Ynys Sgomer yn safle nythu traddodiadol i'r Pâl ac yn wir cafwyd bod nifer o'r adar marw yn Ffrainc yn gwisgo modrwyau a oedd yn dangos mai adar wedi nythu ar Sgomer oeddynt. Cafwyd modrwyau hefyd o Orkney, Ynysoedd yr Hebrides, Treshnish a Wexford. Dengys hyn bod yr adar yn perthyn i boblogaethau wedi eu gwasgaru ar hyd arfordir Prydain yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Pâl wedi ail sefydlu ei hun ar rai o'r ynysoedd eraill hefyd. Ar Ynys Enlli mae'r boblogaeth wedi bod ar gynnydd ers sawl blwyddyn. Y pryder eleni yw y bydd stormydd y gaeaf wedi effeithio ar y boblogaeth ac y gwelwn ostyngiad yn eu niferoedd. Y mae hyn yn wir am Ynys Wair (Lundy) hefyd lle mae'r boblogaeth wedi ail-sefydlu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Wrth astudio'r cyrff marw daeth arbenigwyr i'r casgliad mai marw o ganlyniad i newyn a wnaeth y mwyafrif. Oherwydd nerth y gwynt yn siglo'r môr nid oedd yr adar yn gallu plymio i'r dyfnder i gael bwyd. Ochr yn ochr â hyn oedd y ffaith bod pysgod mwy na thebyg wedi cilio i ddyfroedd tyfnach i gael cysgod. Mewn gwirionedd adar sydd yn ddiybnnol ar gyflenwad o bysgod yw'r rhywogaethau yma. Ynghlwm â'r ffaith bod yr adar yn newynu mae'r ffaith eu bod hefyd wedi marw o ganlyniad i flinder. Rhaid cofio mai adar mudol yw nifer o'r rhywogaethau yma a'u bod ar yr adeg yma o'r flwyddyn yn mudo tua'u safleoedd nythu. Golyga'r mudo eu bod yn hedfan cryn bellter dros gefnfor am gyfnodau hirfaith.

Bu rhai yn gofyn pam nad effeithiwyd gymaint ar rywogaethau'r gwyllanod? Y gwir amdani yw fod gwyllanod llawer mwy hyblyg yn eu dewis o fwyd. Mae nifer ohonynt yn adar ysglyfaethus ac yn gallu elwa ar brae byw neu farw. Mae gwyllanod hefyd yr un mor gyffyrddus ar dir sych ag y maent ar y cefnforoedd. Does ond i chi fynd at domeni sbwriel neu i dref neu ddinas glan môr i weld sut mae'r gwyllanod wedi addasu eu patrwm byw.

Y pryder mawr dros yr wythnosau nesaf fydd pa effaith fydd y dinistr wedi ei gael ar boblogaeth yr adar yma yng Nghymru. Bydd cyfiri manwl ar y boblogaeth eleni er mwyn cymharu â'r sefyllfa yn y gorffennol. Yn wir yr hyn mae'r dinistr wedi'r dymestl yn ei bwysleisio yw'r pwysigrwydd o fonitro dros gyfnod o amser yn hytrach na cheisio dadansoddi sefyllfa ar un digwyddiad.

Does ond gobeithio y bydd yr adar yn dychwelyd i glogwyni ac ynysoedd arfordirol Cymru ac y bydd y boblogaeth yn cael ei hadfer wedi'r dymestl.

DIGWYDDIADUR CWM TAWE

14-17 Ebrill a 22-25 Ebrill: SBRI DI-RI! Menter Iaith CNPT
Rhwyng 9:00 a 3:30 pm yn Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd cynhelir cynllun chwarae Pasg 2014 i blant oed 8 - 12. £7 y dydd. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01792 864949.

2 Mai: Noson i Gofio Dafydd Rowlands

Noson o atgofion, darlenniadau a ffilmiau i goffáu y diweddar Archdderwydd a Phrifardd Dafydd Rowlands yng nghwmni Rhian Morgan, Tegwyn Jones, Meirion Evans, Dilwyn Jones, Côr Twrw Tawe ac eraill. Canolfan Celfyddydau Pontardawe 7yh. Mynediad am ddim. Cysyllter â John Evans 01792 842853 am fwy o fanylion.

6 Mai: Darlith O'Donnell: Yr Athro Charlie Withers, Prifysgol Caeredin ar y testun 'Language geography and the mapping of Celtic Britain and Ireland', Siambr y Cyngor, Yr Abaty, Prifysgol Abertawe. Derbyniad am 5.30pm a'r ddarlith i ddechrau am 6y.h. Mynediad am ddim. Am fwy o fanylion ffoniwch 01792 602070.

9 Mai: Cyngerdd gan enillwyr Eisteddfod Sir yr Urdd, yng Nghapel y Nant, Clydach.

16 Mai: Gigs y Gwach: Steve Eaves a'r band a Jamie Bevan a'r Gweddillion

Tafarn y Gwachel, Pontardawe 9y.h. Mynediad am ddim. Mwy o wybodaeth: 01792 864949.

7 Mehefin: Tabernacl, Pontardawe. **Cyngerdd** gyda Chôr Rygbi Treforys, Parti Côr Merched Lluchwr a'r unawdydd Kate Harwood. Kevin Johns bydd Meistr y Seremoniau.

Bob dydd Gwener: Coffi a Chlonc

Cyfle am sgwrs ac i gymdeithasu yn Neuadd Capel Seion Newydd, Treforys rhwyng 10 a 12.

Croeso i chi anfon manylion eich digwyddiadau at y Llais er mwyn iddynt gael eu rhestru yma a chael sylw eich cyddarlennwyr. Cysyllter â Gwenno Ffrancon ar 01792 842062 neu gwenno_ffrancon@hotmail.com

Hwyl Pasg
£1 Gellionnen **8+**
Play Scheme YGG Gellionnen
14-17/04/14
9:00-1:00

Chwaraeon **Gêmiau**
Celf a Chrefft **a llawer mwy!**

Am fanylion pellach: 01792 460906 / 07436102887
lilas@menterabertawe.org

f Gwpefyr / Facebook: Lilas Menter Iaith Abertawe
t Trydar / Twitter: @LilasMIA

menter iaith
newid am oes
Bangor a Bala ... Eisteddfod ... Eisteddfod
change 4 life
EAT well ... Play more ... Live longer

COF Y CWM

Steven Thompson

Merched y Diwydiant Tun yng Nghwm Tawe

A ninnau newydd ddathlu Mis Hanes Menywod ym Mawrth, dyma droi ein sylw yn y golofn hon at agwedd o hanes menywod Cwm Tawe. Un nodwedd bwysig o fywydau menywod ym Mhrydain yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ym marn rhai haneswyr, yw'r ffaith mai canran isel iawn o fenywod a weithiai y tu hwnt i'r cartref. Un canfyddiad a gyflwynwyd dros y degawdau gan rai haneswyr yw'r cysyniad o sfferau ar wahân, sef bod y dyn yn mynd allan i weithio er mwyn ennill bywoliaeth a chynnal ei deulu, tra bod y fenyw yn magu'r plant, yn cadw'r tŷ ac yn gweithio i gefnogi'r dyn. Ond, erbyn heddiw, mae haneswyr eraill yn honni mai delfrydiad oedd hyn a bod y sefyllfa gryn dipyn mwy cymhleth na hyn a bod llawer o fenywod dosbarth gweithiol wedi gorfod canfod rhyw fath o waith oherwydd natur annigonol cyflogau eu gwŷr. Er gwaethaf y ffaith bod y cyfrifiad yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn awgrymu lefel isel iawn o gyflogaeth ymhlith menywod, roedd menywod yn cyflawni pob math o swyddi swyddogol a mân swyddi ansyddogol yn y gymuned er mwyn gallu cyfrannu rhywbeth at fywoliaeth y teulu.

Ar yr un pryd, tra bod haneswyr wedi amcangyfrif yn rhy isel faint cyflogaeth menywod, mae'n dal yn wir bod llai o fenywod na dynion

wedi gweithio yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yng nghyd-destun Prydain, roedd llai na'r cyfartaledd o fenywod yn gweithio yn y meysydd glo gan nad oedd y diwydiant glo yn darparu llawer o swyddi i fenywod – ac nid oedd de Cymru yn eithriad. Ond ar yr llaw arall, yn wahanol iawn i'r diwydiant glo, darparwyd llawer o swyddi i fenywod a merched ifainc gan y diwydiant tun a oedd mor bwysig yn ne-orllewin Cymru, gan gynnwys Cwm Tawe.

Ymhlith y melinau tun a gafwyd yng Nghwm Tawe roedd Park, Clydach; Player's, Clydach; Ynyspenllwch, Glais; Pontardawe (Gilbertson), Pontardawe; Glanrhyd, Pontardawe; Bryn, Ynysmeudwy; Phoenix, Cwmtwrch Isaf; Gurnos, Cwmtwrch Isaf; Ynyscedwyn, Ystradgynlais; ac Ystalyfera. Ochr yn ochr â'r diwydiannau glo, haearn a nicel, y diwydiant tun oedd un o'r cyflogwyr pwysicaf yn y cwm.

Mae'n glir bod y diwydiant wedi darparu llawer o swyddi i fenywod. Ym 1901, er enghraifft, cyflogwyd 15,015 yn y diwydiant yn ne Cymru, ac roedd 2,967 o'r rhain yn fenywod. Yng Nghwm Tawe, cyflogwyd 1,832 o ddynion erbyn 1939 a 276 o fenywod. Un nodwedd hynod o bwysig oedd y ffaith bod y menywod a gâi eu cyflogi yn rhai sengl: yn ôl cyfrifiad 1901, er enghraifft, cyflogwyd 1,301 o fenywod yn y diwydiant yn sir Forgannwg ond, yn ddi-ddorol, dim ond 37 o'r rhain oedd yn briod. Gellir casglu, felly, bod y menywod sengl, ifainc hyn wedi'u cyflogi cyn iddyn nhw briodi ond bod eu dyletswyddau domestig fel gwragedd wedi dod yn bwysicach nag unrhyw waith y tu allan i'r cartref.

Yn y melinau, roedd rhaniad swyddi yn ôl rhyw yn gryf iawn

ac, ar y cyfan, nid oedd dynion a menywod yn gwneud yr un tasgau. Roedd y menywod yn gyfrifol am wahanol dasgau ond agor y tunplataiau oedd y swydd mwyaf cyffredin i'r menywod. Roeddent yn gorfod cymryd y tun o'r felin ac yna rhannu'r platiau tenau, unai trwy daro'r tun gyda bloc plwm neu ddefnyddio cyllell arbennig i'w agor. Roedd y gwaith yn weddol drwm a llafurus: yn ôl un amcangyfrif cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd y menywod yn agor rhwng 5,040 a 6,720 o blatiau yn ystod pob sifft, yn pwysu cyfanswm o rhwng dwy a thair tunnell. Nid oedd agor y platiau mor beryglus neu mor afiach â swyddi eraill yn y diwydiant, ar y cyfan, ond roedd rhwygiadau i groen a chnawd dwylo'r menywod gan ymylon miniog y platiau yn ddigon cyffredin. Wedi dweud hynny, yr oedd menywod a weithiai yn y diwydiant yn wynebu amrywiol beryglon. Bu farw Bessie Dennis, deunaw blwydd oed o Frynman, er enghraifft, ychydig ddyddiau ar ôl damwain yng ngweithdy Glynbeudwy, Brynman ym 1919 pan gafodd ei thafu yn yr awyr, gan dorri ei breichiau a'i choesau, ar ôl i'w dillad gael eu dal mewn peirianwaith.

Cafwyd rhywfaint o waith hefyd i fenywod a oedd yn glanhau'r tunplataiau ond disodlwyd y menywod hyn yn raddol gan beiriannau newydd a gyflawnai'r gwaith yn fwyfwy wrth i amser fynd rhagddo. Gweithiai menywod hefyd yn y prosesau piclo, rollo oer, caboli, ymysg eraill. Ni châi menywod eu talu gymaint â dynion ond roedd y cyflogau yn llawer uwch na'r swyddi eraill a wnaed gan fenywod ar y pryd. Roedd un ymchwiliad gan y llywodraeth ym 1891-2 wedi darganfod bod cyflogau menywod yn y diwydiant yn 11s. 5d. yr wythnos ar gyfartaledd; roedd cyflogau dynion yn y diwydiant glo ar yr un pryd mor uchel â £2 neu £3 yr wythnos. Yn ogystal â'r cyflogau uwch, roedd gweithio yn y diwydiant tun yn llawer gwell na gweithio fel morwynion domestig, sef un o'r opsiynau eraill a oedd ar gael i ferched ifainc dosbarth gweithiol, oherwydd roeddent yn gallu aros gartref yn lle symud i fyw yn y tŷ lle'r oeddent yn gweithio.

Newidiodd patrymau cyflogaeth menywod yn gynyddol yn yr hanner canrif yn dilyn yr Ail Ryfel Byd a daeth llawer mwy o gyfleoedd i fenywod y cwm ddod o hyd i fathau arall o waith. Yn ogystal, dioddefodd y diwydiant tun a chaeodd y gweithfeydd fesul gan adael y cwm heb yr un melin erbyn diwedd y 1960au. Collwyd ffynhonnell unigryw o waith i fenywod gyda chau'r gwaith olaf a diflannodd ffordd o fyw i wragedd Cwm Tawe. Daeth y 1960au â llawer mwy o ryddid cymdeithasol i fenywod oherwydd y mathau newydd o waith a oedd ar gael, gan gynnwys gwaith mewn swyddfeydd neu siopau, a oedd yn llawer mwy cyfforddus a diogel eu natur ac a gynigiai gyflogau uwch. Er hynny, i nifer o'r gwragedd hyn a berffeithiodd eu sgiliau yn y diwydiant tun, a feddai ar falchder yn eu crefft ac a berthynai i gymuned waith fywiog, roedd dirywiad a thranc y diwydiant yn y cwm yn destun siom a thristwch.



Merch Agor Plâts

Golygydd mis Mai

John Evans

Newyddion i'r canlynol os gwelwch yn dda:

Anita Humphreys

Castell Newydd, Heol Aman, Brynman, Rhydaman, SA18 1SN

neu e-bost arfryn@freenetname.co.uk

Erbyn **Ebrill 20fed 2014** os gwelwch yn dda.

Y Llais yn Trydar ac a'r We

Dilynwch y **Llais** ar Twitter a'r We

Chwiliwch am @PapurBroLlais ac fe gewch y newyddion diweddaraf o Gwm Tawe, hanes digwyddiadau yn yr ardal a gwybodaeth am y papur bro ei hun. Croeso i chi hefyd rannu eich newyddion gyda'r **Llais** fel y gallwn ei drydar i Gymru a'r byd!

Mae gan y **Llais** wefan lle dangosir hen rifynnau. Teipiwch **Llais Cwmtawe** yn y peiriant chwilio.

ABER-CRAF

DYDD GŴYL DDEWI

Dydd lau Chwefror 27, fe gwrrdodd y gwragedd sy'n cynnal y Bore Coffi, yn yr 'Hub' i fwynhau Cawl Cennin a phice ar y maen. Roedd y pryd yn flasus a'r cwmni yn foddhaol.

Hefyd bu Merched y Cribarth yno i fwynhau ffroes ar Fawrth 14.

MUDIAD Y MERCHED

Daeth grŵp 'Merched y Mynydd' i'r Neuadd Les i gynnal Cwis. Roedd Trallong a Pen Pont yn gydradd gyntaf ac Abercraf yn drydydd.

Mawrth y 7ed daeth Steven Jones i siarad am ei waith gyda Ambiwylans Awyr Cymru (Abertawe) ac sy'n ymestyn dros Dde Cymru. Mae e'n aelod cymwys o'r gwasanaeth ac wedi astudio pob agwedd o'r gwaith. Mae'n costio £20,000 bob dydd a chwe miliwn y flwyddyn i gadw'r gwasanaeth i fynd. Dim ond elusen yn unig sy'n cadw'r gwaith i fynd.

CHWIORYDD YBYD

Mrs Mair Norling, cyn brifathrawes yn y Barri, oedd y wraig wadd Nos Wener Mawrth 7 yng ngwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Eglwys Coelbren. Paratowyd y rhaglen gan Chwiorydd Cristnogol yr Aifft a'r testun oedd "Ffrydiau yn yr Anialwch". Alun Brookfield oedd yr organydd a'r gitarydd gyda Ann Nantgwared a Margaret Bush yn cymryd rhannau'r arweinydd yn Gymraeg a Saesneg. Hyfryd oedd mwynhau teisennau nodweddiadol o'r Aifft gyda chwpaned o de ar ddiwedd y noson ddiddorol.

PRIODAS

Ddydd Sadwrn Mawrth 8, fe dderbyniodd Rhys Wyn Hughes ac Emily May McInnes fendith ar eu Priodas Sifil oddi wrth y Ficer, yn Eglwys Callwen.

GWERTHFAWROGIAD

Fe gafodd Mrs Elizaabeth Tyler, Craig y Nos ei enwebu fel un o Wragedd Rhyngwladol y Flwyddyn yn nosbarth 'Person y Gymuned'. Fe dderbyniodd dystysgrif, rhôl a thusw o flodau oddi wrth Ann Jones, Cadeirydd Sefydliad y Merched Powys/Brycheiniog, mewn cyfarfod yn Neuadd yr Esgob Bevan, Aberhonddu.

YSTRADGYNLAIS

PENBLWYDD ARBENNIG

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Miss Heulwen Thomas, Maes y Cwm ar ddatlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Fawrth 13. Bu'n dathlu yng nghwmni'r teulu.

GWELLHAD BUAN

Ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Bernice Jones, Heol Eglwys. Da yw ei gweld adre yn ymgyrfhau ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty.

OEDFAON Y PASG

Ar fore dydd Gwener y Groglith am 11 o'r gloch cynhelir oedfa bregethu yng nghapel Aion. Disgwylir i wasanaethu y Parchedig Denzil John, Caerdydd.

Yna, yng nghapel y Tabernacl am 2.30 y prynhawn dydd Gwener y Groglith cynhelir oedfa bregethu. Disgwylir i wasanaethu y Parchedig Cynwil Williams, Caerdydd. Croeso cynnes i bawb i'r oedfaon ar y diwrnod arbennig hwn.

CYMANFA GANU

Cynhelir Cymanfa Ganu yng nghapel y Tabernacl am 10.30 ar fore dydd Llun y Pasg. Yr arweinydd gwadd fydd Mr Huw Rees. Dewch i gefnogi ac i uno yn y mawl.

MARWOLAETH

Yn Ysbyty'r Gymuned ar Fawrth 4, wedi tostrwydd byr bu farw Marian Jones (gynt Watkins) priod y diweddar Dewi, mam Robert, Susan, Gareth a Rhian, mam yng nghyfraith Trish, Helen ac Alwyn, mamgu a hen famgu annwyl.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu hwn yn eu hiraeth a'u galar.

YN YR YSBYTY

Yn Ysbyty'r Gymuned ar hyn o bryd mae Mrs Peggy Jones, Brecon Road, Penrhos a Mrs Margaret Thomas, Llanfaes. Anfonwn ein dymuniadau gorau atynt, y ddwy yn ddarllenwyr cyson o'r 'Llais'.

Y NEUADD LES

Bob Nos Lun o 5.00 hyd 6.30 yr hwyr cynhelir Theatr Ieuenctid yn yr Iaith Gymraeg. Mae'n addas i blant o 10 hyn 14 oed.

Am 7.15 yr hwyr ar Nos Lun, Ebrill 28, ceir cyfle i weld y bale "The Winter's Tale" wedi i ddarlledu'n fyw o'r Tŷ Opera Brenhinol Llundain.

Ar Nos Iau, Mai 1, am 7 o'r gloch cyflwynir 'King Lear' yn fyw o'r Theatr Genedlaethol.

Dyddiad arall i chi ei gofio yw Mai 16. Am 8 o'r gloch ar y Nos Wener hon, bydd Catrin Finch a Seckou Keita (un o Senegal sy'n canu'r Kora) yn dod i'r Neuadd Les.

Mae Catrin Finch yn feistres ar y delyn. Bydd yn noson o gerddoriaeth gyffrous.

YSTALYFERA

Y WERN

DYMUNO'N DDA I MARGARET

Mae Mrs Margaret Aubrey, Heol Ynysydarren wedi bod yn Ysbyty Treforys ers rhai wythnosau, ond da yw cael dweud ei bod erbyn hyn dipyn yn well. Yn nodweddiadol iawn ohoni mae Margaret yn ddiolchgar iawn am bob gofal mae wedi cael tra yn yr ysbyty ac mor werthfawrogol o'i chymdogion a'i ffrindiau sydd hefyd wedi bod yn hynod garedig tuag ati.

Mwy nag unwaith cawsom glywed ganddi taw ei dymuniad pennaf yw cael gwella' ddigon da er mwyn dychwelyd i'w haelwyd glyd yn Ynysydarren ac i ail gydio yn ei phethe yn ei chornel bach hi ei hun chwedl Margaret. Ac yn sicr iawn dyna yw dymuniad pawb ohonom sydd yn nabod Margaret yw ei gweld hi nôl ar ei haelwyd yn fawr ei chroeso a'i gwen i bawb sy'n galw i'w gweld. Pob dymuniad da i Margaret.

DATHLU GŴYL DDEWI YN Y WERN

Do, fe gawsom ddatliad a'r bwydydd traddodiadol sydd yn gysylltiedig â'r Ŵyl, ond ar ben y cyfan oll fe gawsom Gôr a hwnnw'n Gôr arbennig iawn i'n difyrru ar ddydd Gŵyl ei Nawddsant.

Yr enw ar y Côr yw "A time to Sing" ac yn wir roedd pob aelod o'r Côr a chefnogwyr y Côr yn edrych yn smart iawn yn eu topiau coch ac enw'r Côr wedi ei argraffu mewn llythrennau bras ar gefn pob un.



Roedd repertoire y Côr yn un eang iawn gyda rhywbeth at ddant cerddorol pawb oedd yn bresennol. A sôn am gynulleidfa da oedd gweld cymaint o ffrindiau wedi dod ynghyd. Rwy'n siwr fy mod yn siarad ar ran pawb oedd yn bresennol na fu neb

ohonom mewn cyngerdd tebyg erioed o'r blaen. Roedd eu canu a'u llawenydd wrth ganu yn heintus ac wedi cyffwrdd â phawb oedd wedi troi i mewn i gapel y Wern ar y prynhawn Sadwrn hwnnw sef y cyntaf o Fawrth.

Gyda dau gyfraniad caredig oedd wedi ein cyrraedd yn hwyr gwnaethpwyd casgliad o £146, a throsglwyddwyd yr arian i Mrs Jenny Davies arweinydd y Côr. Mewn neges oddi wrth Jenny mae'n hyfryd iawn cael cofnodi eu bod wedi gwneud defnydd da o'n rhodd gan iddynt brynu allweddell newydd ar gyfer ei hymarferion.

Gobeithio y daw cyfle eto i ni wrando ar Gôr 'A Time to Sing' yn canu ac i ni fel cymdeithas dreulio orig yn eu cwmni.



Y gwraedd fu'n gweini adeg y dathliad

PANT-TEG

GWELLHAD BUAN

Blin oedd gennym glywed am ddamwain anffodus Melba Roderick. Mae Melba wedi ymgartrefu yn "Y Grove" bellach. Gobeithio byddwch yn teimlo'n llawer gwell cyn bo hir Melba. Cofion cynnes hefyd at un arall o'n haelodau yng nghartre gofal Y Grove sef Mrs Nancy Davies. Nancy yw'n haelod hynaf wedi cyrraedd ei 98 oed. Mae'r ddwy wedi bod yn gefnogwyr a darllenwyr brwd o'r *Llais* o'r cychwyn cyntaf.

O'R HYNAF I'R IEUENGAF

Mae Llywelyn sydd newydd ddathlu ei benblwydd yn bedair oed wedi ein llonni a'i bresenoldeb bob Sul bron ers yn faban ychydig fisoedd oed. Mae'n debyg iddo gael tipyn o hwyl yn ei barti penblwydd ac ar y Castell Sboncio gyda'i ffrindiau bach.

Diolch i Fiona a Bill am y te hyfryd a drefnwyd i'raelodau wedi'r oedfa ar Sul Mawrth 23.

APEL HAITI

Diolch i bawb am bob cyfraniad tuag at yr apêl hon.

TRAFOD IEITHOEDD LLEIAFRIFOL

Mae'r Dr Hywel Lewis ar hyn o bryd yn ymweld ag America i drafod a sôn am gynnal a defnyddio iaith leiafrifol gyda'r brodorion Indiaidd yno. Fel mae'n ddigon hysbys i ni yng Nghymru gall digon o broblemau ac anawsterau godi mewn sefyllfa o'r fath. Edrychwn ymlaen i gael clywed tipyn o hanes y Gynhadledd gan Hywel pan ddaw'n nôl

CWMLLYNFELL

MARWOLAETH

Yn Ysbyty'r Gymuned Ystradgynlais bu farw Mrs Doreen Lewis, Heol Gwilym. Estynnwn bob cydymdeimlad i'w mab Alan a'r teulu oll yn eu colled a'u galar.

GŴYL DDEWI

Cafwyd hwyl yn y Neuadd gyda phlant yr ysgol yn cynnal twmpath eleni yn hytrach na chyngherdd.

Yng Nghapel Cwmllynfell trefnwyd gwasanaeth arbennig o dan ofal Mrs Eirian Evans. Disgleiriodd plant yr Ysgol Sul yn llefaru, canu a chwarae offerynnau. Fe gymerwyd rhannau amrywiol gan aelodau'r capel.

Yn y Neuadd cafwyd noson ddifyrus yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Aman, gyda'r artist Eirlys Bellini a Noel James yn cyflwyno.

RYGBI.

Tymor cymhedrol yw hi wedi bod i dim rygbi Cwmllynfell hyd yn hyn, ennill 9 o'r 16 gem a chwaraewyd a cholli 7. Braidd yn siomedig yw eu perfformiadau oddi cartref, gan gollu'n drwm yn erbyn timau a drechwyd ganddynt ar Barc y Bryn. Felly bu yn erbyn tim Athletig Caerfyrddin y Sadwrn diwethaf, y tim lleol yn sgorio chwe chais yn eu buddugoliaeth o 35 pwynt i 10 y tim o Gaerfyrddin. Er hynny, maent yn y pumed safle yn Adran Gyntaf y Gorllewin, Pencampwriaeth Swalec sydd yn ddigon teilwng wrth feddwl am cyn lleied yw sgwad tim Parc y Bryn.

Ar ôl y gem yn erbyn Crymch yn ddiweddar roedd yna ddiwyddiad pleserus yn y pafiliwn pan anrhegwyd Cadeirydd y clwb Royden Morgan ar ran y clwb gan yr Ysgrifennydd Eirion Richards ar ddathlu ei benblwydd yn 80 oed. Mae cysylltiad Royden â chlwb Rygbi Cwmllynfell yn mynd yn ôl i 50au y ganrif ddiwethaf. Roedd yn gapten tim llwyddiannus leuenctid Cwmllynfell yn y cyfnod hwnnw; chwaraeodd ei gem gyntaf i dim cyntaf Cwmllynfell pan oedd ond 16 !! Wedi dychwelyd i'r ardal ar ôl cyfnod yn y coleg, bu'n gapten ar dim llwyddiannus Cwmllynfell pan enillwyd Pencampwriaeth Undeb Rygbi Gorllewin Cymru dair gwaith mewn 4 tymor. Parhaodd i chwarae tan iddo ymddeol o'r gem, yna gweithredodd ar bwyllgor y clwb, bu'n drysorydd am gyfnod, ac am y blynyddoedd diwethaf ef yw Cadeirydd Clwb Rygbi Cwmllynfell – cysylltiad dros 65 o flynyddoedd- camp yn wir. Da was da a ffyddlon.



Eirion Richards (dde) yn anrhegu Royden.

TORIADAU

Y sgîl toriadau gan Gyngor Sir Castell-nedd Port Talbot, bu tipyn o drafod mewn dau gyfarfod cyhoeddus ynglŷn â dyfodol llyfrgell y pentre.

Diolch i weithgarwch Pwyllgor y Neuadd a pharodrwydd tua dwsin o wirfoddolwyr yn barod i ymgymryd â'r gwaith, bydd y llyfrgell yn agor am ddau gyfnod yn wythnosol am ddwy awr bob sesiwn.

***Dydd Llun yn y bore a'r prynhawn.
Dydd Gwener yn y bore yn unig.***

Diolch am wasanaeth arbennig Mrs Denis Fyfield y llyfrgellydd yma ar hyd y blynyddoedd. Dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol. Mae'r toriadau yma yn effeithio ar y Clwb Bowlio lleol hefyd. Mae'r gefnogaeth ariannol ac ymarferol (torri'r gwair ac ati) ar ben, a bydd cyfrifoldeb rhedeg y Clwb yn cwmpo'n llwyr ar ysgwyddau'r pwyllgor a'r aelodau. Gobeithio wir nad yw hyn yn golygu diwedd i'r Clwb sydd wedi dod â chymaint o bleser i drigolion y pentre.

CANLYNIAD HOLLOL ANNISGWYL

Mae nifer o gleifion Heol Newydd a Phenygraig wedi cael sioc yn ddiweddar o glywed mai ysbytai Glangwili, Caerfyrddin, y Tywysog Philip, Llanelli a Llwynhelyg, Hwlfordd yw eu hysbytai yn awr gan eu bod yn byw yn Ystradowen, Sir Gaerfyrddin. Syniad y Cyngor Cymunedol yn Ystradowen oedd cael

cyfeiriad yn Sir Gaerfyrddin ac y byddai o fudd l'r trigolion. Ond nid felly y mae o ran mynychu ysbyty. Maent wedi colli'r hawl l ddefnyddio Singleton, Treforys a Chastell-nedd ar wahân i sefyllfaoedd o argyfwng neu bod yr adnoddau priodol ddim ar gael yn yr ysbytai y cyfeiriwyd atynt. Sioc a siom wir.

YR ALLTWEN

CAPEL YR ALLTWEN

EBRILL

- 6 Oedfa Gymun a'r Gweinidog yn gwasanaethu
 13 Sul y Blodau - y Parchg Ieuan Davies
 18 Gwener y Groglieth - Oedfa Gymundeb yn y Ffestri am 2.30 yp - y Gweinidog yn gwasanaethu
 20 Oedfa Gymundeb yr Ofalaeth yn Soar-Maesyrhaf am 10.30yb - y Gweinidog yn pregethu a gweinyddu'r Cymun
 27 Dr David Lloyd.

GWASANAETH GŴYL DDEWI YR OFALAETH



Daeth cynulleidfa luosog i Oedfa Gofalaeth yn yr Alltwn ar Sul Mawrth 2, a darllenwyd emyn gan Mali a Lowri o Soar-Maesyrhaf, a darllenwyd y Gair gan Nia Johns o Soar-Maesyrhaf ac emyn gan Janet Ellis a gweddiwyd gan Catrin Richards a Rachel Davies o'r Alltwn. Cafwyd adroddiad am Dewi Sant gan Mali a Lowri a datganiad offerynnol gan Riannon a Gethin Hammond o alawon Cymreig. Darllenodd Elin Lloyd emyn a thraddodwyd neges gan y Gweinidog y Parchg. Gareth Morgan Jones gan ddefnyddio chwedl Cantre'r Gwaelod fel eglureb a'r pwysigrwydd o fod yn wylwyr ar y tŵr a diogelu'r etifeddiaeth, yr iaith Gymraeg a'r Ffydd Gristionogol a chofio geiriau olaf Dewi "Cedwch eich ffydd a'ch cred" Darllenwyd emynau gan Lois Williams a Mairwen Watts a gweinyddwyd y Cymun gan y Gweinidog. Cawson ddatganiadau gwych ar yr organ gan Huw Rees a chanwyd gydag arddeliad yr anthem genedlaethol. Yn dilyn daeth llond festri i gael paned a chymdeithas. Bydd yr Oedfa Gofalaeth nesaf ar Sul y Pasg yn Soar-Maesyrhaf am 10.30 o'r gloch. Diolch i Elizabeth Davies am baratoi y taflenni deniadol iawn.

Y CHWIORYDD

Fe ddathlodd y Chwiorydd Gŵyl Ddewi ar Dydd Mawrth Ynyd ar y cyd, pan fu mwyniant gyda phice'r maen, bara brith a ffroes – prynhawn hyfryd iawn.

Diolch i Pamela Thomas, Rhydwen James, Delma James, Ella Harris a Beti Williams am gymryd rhan yn oedfa Cwrdd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Soar ar Fawrth 7

Diolch i Wendy Williams am drefnu'r oedfa fel arfer.

CYDYMDEIMLAD

Yn frawychus o sydyn bu farw Michael Evans, yn 52 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â Betty-Ann, Keith, Angharad a Christopher yn eu colled enfawr.

Ar ôl salwch hir a ddiodeffodd yn ddewr iawn, bu farw Arthur Gwyn Evans (Tiger), Heol Tanyrallt y 65 mlwydd oed. Roedd yn adnabyddus fel adeiladwr a ganddo ddi-ddordeb mewn pysgota, rygbi, golff a cherdded. Cydymdeimlwn â'i weddw

Marlene, y bechgyn Carl, Carwyn ac Emyr, yr wyrion Matthew, Megan, Carys, Ffion a Joshua a'i chwiorydd Elizabeth a Margaret.

Yn 86 mlwydd oed bu farw Nan Williams, Heol Derwen, gweddw Dennis Williams. Roedd yn aelod o deulu o ddeuddeg o blant y diweddar Tomi a May Jones. O'r teulu mawr hwn tri o'r plant sydd bellach ar ôl – Eric, Wyn a Gordon.

Cydymdeimlwn â'r plant, Rhian, Simon a Ceri a'r teulu cyfan yn eu colled.

PONTARDAWE

SOAR

DYDD GWEDDI BYD EANG

Ar ddydd Gwener Mawrth 7, daeth cynrychiolwyr gwragedd eglwys i'r ardal i Soar, i gymryd rhan y gwasanaeth blyneddol. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan Chwiorydd Cristnogol yr Aifft. Thema'r gwasanaeth hyfryd oedd "Ffyrdiau yn yr Anialwch" – addas iawn o gofio bod afon Nil yn allweddol i economi eu gwlad ar hyd yr oesoedd.

Trefnwyd y Gwasanaeth gan Wendy Williams a'r organydd oedd Tom Jones. Yn ystod y drafodaeth ar leoliad y gwasanaeth yn y dyfodol, derbyniodd y cynrychiolwyr yn unfrydol, ein gwahoddiad i gyfarfod yn Soar yn flynyddol i ddathlu'r achlysur hwn. Swm y casgliad oedd £66. Mae'r cyfraniadau bob blwyddyn yn cael eu rhannu'n genedlaethol rhwng elusennau Cristnogol - £4,600 llynedd a £1,500 i'r Cyhoeddiadau Enwadol a Chydenwadol.

CLWB PLANT AC IEUENCTID

Ar nos Lun, Mawrth 24, bydd y clybiau yn dechrau yn y festri. 6-7 o'r gloch i blant (7-10 oed) a 7-8 o'r gloch i ieuencid (11-16) oed. Hefin Jones fydd yn arwain. Yn ddiweddar, bu Hefin yn westai ar raglen 'Pnawn Da' (Tinopolis). Bu'n sôn am ei brofiadau tra'n gweithio dramor a'i obeithion am y dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i blant yr Ysgol Sul fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd. Bu Amelia, Dewi, Efa, Harri a Lowri yn adrodd a chawsom y pleser o wrando arnynt wedyn yn ystod yr Ysgol Sul. Mae'n hyfryd eu gweld yn magu'r hyder i gymryd rhan tu allan i furiau cyfarwydd yr eglwys a'r ysgol. Gobeithiwn y bydd eraill yn ymuno â nhw y flwyddyn nesaf. Pob hwy i Dewi yn yr Eisteddfod Sir.

Llongyfarchion hefyd i Nona Ebeneser ar gyrraedd ei phenblwydd yn 90 oed ar Fawrth 4. Gan ei bod yn gaeth i'w gwely ers misoedd, aeth rhai o'r Chwiorydd i ymweld â hi ar yr achlysur gyda chardiau, anrhegion, ei theisen penblwydd. Roedd Nona, fel arfer, yn mwynhau eu cwmni – a byth yn cwyno. Mae'n esiampl i ni gyd.

Deallwn fod un arall o'n haelodau yn dioddef yn yr Ysbyty yn Hwlfordd, sef Miss Glenys Jones – chwaer Mair, Tom, Margaret a Gaynor Gobeithiwn gael newyddion da am ei chyflwr cyn bo hir.

Mae Cynthia am ddiolch o galon i'r aelodau a hefyd i'w chyfeillion eraill a'i chymdogion am eu cymorth parod a chyson yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty – ac ar ôl dychwelyd adre.

TABERNACL

OEDFAON MIS EBRILL

6	10.30	Y Brawd Owen Pugh	Cymundeb
13	10.30	Y Chwaer Marie Thomas	Oedfa Saesneg
18	10.30	Y Brawd Owen Pugh	Groglieth
20	10.30	Y Brawd Owen Pugh	Cymun y Pasg
27	10.30	Y Brawd Eric Francis	

OEDFAON MIS MAI

4	10.30	Y Brawd Owen Pugh	Cymundeb
11	10.30	Cymorth Cristnogol yn Soar	

18 10.30 Y Brawd Owen Pugh
25 5.30 Y Parch Clive Williams Oedfa Saesneg

CYNGERDD YR ORGAN

Ar 7 Mawrth cynhaliwyd cyngerdd hollol llwyddianus yn y capel i ddathlu atgyweiriad yr organ. 'Roedd safon y noson yn arbennig o uchel. Dywedodd pawb oedd yn bresennol eu bod wedi mwynhau'r noson yn fawr. Yr arbenigwyr ar yr organ oedd Susan Davies o'r Alltwn, y Parchg Clive Williams o Graigcefnparc, Lee Walton o Lundain a Christopher Lewis o Glydach. Ein hunawdydd oedd Ashley Rogers o Bontardawe. Yn anffodus 'roedd trefnydd y gyngerdd Gwynne Griffiths yn methu bod yn bresennol am ei fod yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan iawn iddo.

Dyma lun o'r cyfranogwyr Yn y rhes ôl (o'r chwith) mae Lee Walton, Christopher Lewis ac Ashley Rogers Yn y rhes flaen mae Susan Davies, y Parch Clive Williams ac Owen Pugh. Ar y dde mae'r Cynghorydd Sue Northcott, Maeres Pontardawe, gyda'i gwr Andrew.



Bydd ein cyngerdd nesaf ar 7 Mehefin am 7.00 o'r gloch gyda Chôr Rygbi Treforus, Parti Côr Merched Lluchwr a'r unawdydd Kate Harwood. Kevin Johns bydd Meistr y Seremonïau

CINIO GŴYL DDEWI

Ar 3ydd Fawrth dathlwyd gŵyl ein Nawddsant gyda chinio yn y Ffestri. 'Roedd nifer da o'n haelodau yn bresennol a chawsant luniaeth ardderchog oedd wedi ei baratoi gan gwmni Bishop's

o Bontardawe. Ein gŵr gwadd eleni oedd Mr Geraint Walters sydd yn fab i'n diacon Eifion Walters a'i wraig Dilys o Rydyfro. Mae Geraint yn fargyfreithiwr yn Abertawe ac yn Gofrestrydd Llŷs y Goron. Siaradodd am y gyfraith ac fel y mae wedi effeithio datblygiad yr iaith Gymraeg yn y llys dros y blynyddoedd. Roedd yr anerchiad yn llawn hiwmor ond yn cynnwys sawl pwynt pwysig a difrifol. Roedd yn noson dderbyniol iawn a diolchwyd i Geraint a phawb oedd wedi trefnu'r noson gan ein harweinydd Owen Pugh.

CYMDEITHAS RUTH A NAOMI

Bydd aelodau'r gymdeithas yn brysur iawn dros y misoedd nesaf. Dros y Pasg, ar yr 11af Ebrill am 2.00 o'r gloch bydd yna barti te a chystadleuaeth Bonedi'r Pasg. Ar 10fed Mehefin am 6.00 o'r gloch byddant yn cynnal Ffair Haf a the mefus yn y festri. £3 fydd pris mynediad i'r noson ..

Hwyrach ar 9fed Gorffennaf bydd y wibdaith flynyddol yn ymweld â'r farchnad yn Abergavenny. Byddwn yn dechrau trwy cael lluniaeth yng nghaffi'r 'The Old Schoolroom' yn Defynnog ger Bont Senni – Gwefan www.theoldschooltearoom.co.uk Mae Lee Evans, mab ein haelod Myfanwy Evans, a'i wraig Kay yn ail agor y caffi ym mis Ebrill eleni. Bydd y diwrnod yn diweddu gyda phryd llawn yn y Bear yng Nghrughywel. Enwau i Gill Williams neu Margaret Davies os gwelwch yn dda.

Yn ystod eu cyfarfod ar 11eg Mawrth derbyniodd ysgrifenyddes y capel, Mrs Helen Macduff anrheg i'r capel o flodau sidan prydfarth iawn oddiwrth Mr Gwyndaf Lewis a Mrs Megan Lewis. 'Rydym yn ddiolchgar iawn i Mr a Mrs Lewis am eu haelioni. Bydd y blodau yn sicrhau awyrgylch arbennig yn y capel i'r dyfodol. Diolchwyd hefyd i Mrs Gillian Williams gan gadeirydd y gymdeithas, Margaret Davies, ar ran yr aelodau, am drefnu'r Cinio Gŵyl Ddewi a gynhaliwyd yn gynt yn y mis.

YN YR YSBYTY

Mae ein cyn ysgrifennydd Gwynne Griffiths yn dal i fod yn Ward 9, Ysbyty Singleton, ar hyn o bryd. Gobeithiwn fydd yn cael gwellhad buan ac yn medru ail ymuno â ni yn y dyfodol agos. Braff yw dweud fod Anne Paulette wedi dychwelyd o'r ysbyty ac yn medru cymryd rhan yn ein gwasanaethau.

TARENI GLEISION

Waun fawr • Cae draw • Cae uwchlaw'r ty •
Cae gwaundon melyn isha • Cae dan y daren • Cae sgubor

TY ISHA

Cwm • Cae cefn bach • Cae cefn mawr • Cae'r ody • Graig •
Erw lydan • Cae gwaundon melyn ucha • Erw hir • Coedcae ucha •
Nant y waun goch • Waun goch • Coedcae isha

CAEAU
CWMTAWE

RHYDYFRO

SARON

6	Y Baran
13	Dr Phill Davies
20	Y Parchg Ieuan Davies
27	Y Brawd Ken Allison

GWELLHAD

Da oedd cael clywed bod Dave Topperlin, Waun Penlan wedi dod yn ôl i'w gartef ar ôl wythnosau yn yr ysbty. Mae pawb yn y pentre yn ei adnabod wrth iddo cerdded y cŵn dair gwaith y dydd. Dymunwn gwellhad buan iddo.

CAPEL Y BARAN

Ar y Sul cyntaf o Fawrth cawsom oedfa fendithiol o dan arweiniad y Parchg Clive Williams. Aeth â ni i ben mynydd uchel, mynydd y gwednewidiad yng nghwmni Iesu, Pedr, Iago ac Ioan. "Arglwydd", meddai Pedr, "mae'n dda i ni fod yma". A dyna oedd ein profiad ninnau hefyd ar ben mynydd Carn Llechart.

Awgryma'r diwinydd dadleuol Origen yn y drydedd ganrif mae Tabor oedd mynydd y gwednewidiad. Beth bynnag am hynny yr hyn sy'n bwysig i ni heddiw yw'r sicrwydd fod Iesu drwy ei ysbryd gyda'i ddilynwyr drwy'r oesau.

Diolch i Clive am neges yn llawn gobaith, ac wrth iddo weinyddu'r Sacrament cawsom gyfle newydd i'w "Adnabod Ef a grym ei atgyfodiad a chymdeithas ei ddiodefiadau".

Bydd oedfa Mis Mai o dan ofal y Parchg D Carl Williams, Mis Mehefin y Parchg Emyr Gwyn Evans, ymweliad Eglwys y Gwynfryn, Mis Gorffennaf y Parchg Alan John. Bydd pob oedfa am 2.30 y/p ar y Sul cyntaf y mis. Croeso cynnes iawn i'r oedfaon.

CLYDACH

CASGLU SBWRIEL

CADW AT 3 A PHROSIECT CYFFROUS.

Bu amnest ar gasglu sbwriel gan Gyngor Dinas Abertawe yn ystod mis Mawrth a gwelwyd biniau ychwanegol ym Mharc Forge Fach am ddeuddydd i gasglu gwastraff mawr yn hytrach na'u gadael o amgylch y lle.

Yn ôl June Burtonshaw, aelod o'r Cabinet "Yr her i bawb bellach yw gwneud popeth a allwn i sicrhau mai 3 sach ddu ar y mwyaf rydyn yn rhoi allan i'w casglu bob pythefnos." Mae hyn mewn ymateb i ofyn Llywodraeth Cymru i gynyddu'r gyfradd ailgylchu i 58% erbyn 2016.

MERCHED Y WAWR



Bu nifer o'r aelodau yn cymryd rhan yn Noson Chwaraeon y Rhanbarth. Cafwyd hwyl wrth gymdeithasu a chwarae chwist, sgrabl, dominos a dartiau. Ym mis Mawrth croesawyd Ann Rosser o'r Gellifedw. Mae Ann yn gyn-ddarlithydd o Goleg y Drindod ac yn diddori mewn hanes lleol. "Siaradwch" oedd ei gorchymyn mawr achos drwy siarad cawn gyfle i ddysgu a

chlywed am hanes a chymeriadau lleol. Cawsom gip drwy sgwrs a hanesion am gyflwr y Cwm o sut oedd hi ar bobl wrth weithio yn y gweithfeydd glo, copr a dur. Mis nesaf edrychwn ymlaen i gwrdd â Gwawr Martha Lloyd ynghyd â Catrin, merch yng nghyfraith un o'n haelodau, Barbara Pickerel, yn sôn am arlwy diwedddara drama sianel S4C.

PROSIECT SWAT

Partneriaeth yw SWAT (Swansea Waste Action Team) sy'n cydweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddefnyddio defnydd sydd wedi ei ailgylchu ar gyfer gwneud gwahanol bethau. Mae'r gweithdy yn 37 Heol Pontardawe a gellir prynu blychau a byrddau adar, planwyr, blychau tylluanod, boncyffion, coed tân a brics glo. Cofiwch am hyn wrth baratoi'r gerddi yn y gwanwyn. Tracey Ambrose sy'n gyfrifol am gydlynu'r gwaith.

TELYNORES YN EFROG NEWYDD



Elin Maher, Ffion Lanchbury a Nia Edwards gyda Gwenllian Llyr yn Neuadd Carnegie, Efrog Newydd.

Un o gorau mwyaf llwyddiannus ardal Caerdydd yw Cordydd ac i orffen dathliadau Gwyl Ddewi Efrog Newydd byddant yn mynd i ganu yn Neuadd Carnegie. Sefydlwyd y Côr yn 2000 ac maent wedi ennill gwobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol wyth tro. Maent yn enwog am ganu gweithiau cyfansoddwyr megis Eric Whiticore, John Rutter a Morten Laundsen ac hefyd Paul Mealor, awdur Ubi Caritas - gwaith a ganwyd ym mhriodas frenhinol William a Kate. Bu Gwenllian Llyr y delynores yno gyda'r côr ac yn perfformio, am y tro cyntaf, waith Gweddi Gymreig gan Paul Mealor. Profiad arbennig i ferched o Gwmtawe a gweddi ll y côr.

CYMORTH CRISTNOGOL



Cynhaliwyd bore Coffi dan nawdd Pwyllgor Clydach o Gymorth Cristnogol yn Eglwys y Santes Fair ar Fawrth 3ydd. Yn ystod y Grawys cynhelir cinio cawl ar foreau Gwener mewn gwahanol eglwysi.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni fe gynhelir gwasanaeth ar y Nos Lun, Mai 12 yn Neuadd Capel y Nant gyda phaned a stondin i ddilyn. Cyn hynny cawn gyfle i brynu'r amser drwy gyfrannu £1 y funud i Gymorth Cristnogol.



Aelodau o eglwys y Wesle yn gweini'r Cawl

CYTŪN

Trefnwyd Astudiaeth Feblaidd yn ystod y Grawys wrth ddilyn Cwrs Efrog ar y thema Adeiladu Tŷ ar y Graig.

Cynhelir Oedfa undebol Gymraeg fore Gwener y Grogllith yng Nghalfaria am 10.30 o dan ofal y Parchg Ddr Noel Davies.

CWRDD GWEDDI GWRAGEDD Y BYD



Cynhaliwyd oedfa Cwrdd Gweddi Gwragedd y Byd eleni yn Eglwys y Santes Fair. Cynrychiolwyd nifer o eglwysi. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan ferched o'r Aifft, a meddwl am y dioddefaint sydd yno ymhlith Cristnogion ac eraill roedd y thema Ffrydiau yn yr Anialwch yn ffynhonnell cysur. Cyflwynwyd yr anerchiad gan June Griffiths. Diolch i Marlene Evans yr ysgrifennydd am gydlynw'r cyfan.

TŶ CROESO

Mae Tŷ Croeso Clydach, yn parhau i drefnu sawl gweithgaredd drwy'r wythnos. Mae'r Grŵp cefnogi y galarus wedi dod i ben gyda sgwrs gan Sue o'r elusen Cruse (elusen sy'n gofalu am bobl sy'n galaru) a bydd sesiynau eraill yn dechrau ar ddiwedd mis Ebrill. Ar un prawn Sul cynhaliwyd 'Cafe Church' eto pan ddaeth ugain i fwynhau cwis, caneuon a chlywed stori'r Pasg. Enillodd pob plentyn wy Pasg! Bob bore lau cynhelir Siop siarad yno, pan mae grŵp bach o ddysgwyr yn dod i siarad "iaith y nefoedd." Wrth gwrs, mae Tŷ Croeso ar agor bob bore Mawrth ar gyfer y Banc Bwyd a taro Mewn / Drop-in. (Alan Cram) 01792 845942

CAPEL Y NANT

Yn ystod y mis gwasanaethwyd yn yr oedfaon gan ein harweinydd Robat Powell, y Parchedigion Dyfrig Rees, Ken Williams, Dewi Myrddin Hughes a'r brawd Gareth Hopkin. Cynhaliwyd gwasanaeth Gŵyl Ddewi a chawsom gyfle hefyd i ymuno am ginio gyda'n gilydd yn y Manor Park. Braff oedd gweld cymaint yn bresennol.

Cynhaliwyd cyrddau cyfoes lle trafodwyd ambell bennod o'r llyfryn *Byw'r Cwestiynau* a gyhoeddwyd gan Cristnogaeth 21.

O dan nawdd y Grŵp Eglwys a Chymdeithas trefnwyd noson lwyddiannus i godi arian i Haiti gan y grŵp gwerin 'Y Bardd Bach'. Rydym yn agos at gyrraedd ein nôd o godi £3,000 tuag at Apêl Haiti.

Dymuniadau gorau i Sioned James, merch Helen a Geraint James sydd yn yr ysbyty ym Birmingham. Da gweld bod Catherine Evans yn gwella ar ôl bod yn yn Ysbyty Baglan.

Llongyfarchiadau i Shirley Williams, Ynystawe ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed.

Yn y Chwaeroliaeth cafwyd sgwrs ddifrif gan un o'n haelodau Alun Owen yn ystod y mis. Diddorol oedd clywed am nifer o Gymry a'u cyfraniad aruthrol i fywyd ein cenedl a'r byd. Cafwyd cip ar hanes diddorol bywyd Syr Daniel Morris, un a anwyd yng Nghasllwchwr ac a fu'n gweithio ym mhellafoedd byd ac yng Ngerddi Kew a gwneud gwaith rhyfeddol.

BEDYDD FFUG



Braff oedd croesawu plant o ddosbarth meithrin Ysgol Gymraeg Gellionnen i wasanaeth bedydd ffug. Mae wastad yn braff i groesawu pobl a phlant i'r capel ac i ddefnyddio'n hadeiladau. Canran fach iawn o bobl sy'n mynychu ein haddoldai yn gyffredinol ac mae'n braff i agor ein drysau a dangos fod croeso iddynt.

PRIODAS AUR



Llongyfarchiadau i John a Brenda Evans ar ddathlu eu Priodas Aur ddiwedd Mawrth.

DIOLCH BRIAN



Yn ystod sesiwn o Eisteddfod Gylch yr Urdd eleni yn Ysgol Gymraeg Gellionnen fe gyfeiriodd Cadeirydd Pwyllgor Cylch Treforys Ian Roberts at waith diflino un o'i gwirfoddolwyr. Yn y llun yma gwelir ef gyda Brian Longden sydd wedi bod wrthi fel trysorydd y Cylch am ddros deg mlynedd ar hugain. Mae Brian yn ŵr i Carol a dros y blynyddoedd maent wedi rhoi cyfraniad arbennig i weithgareddau'r Urdd yn yr ardal. Lle byddai'r Urdd heb ei gwirfoddolwyr? Diolch Brian a phob dymuniad da .

CYFUNDEB GORLLEWIN MORGANNWG

Cynhelir y sesiwn nesaf ar Foeseg Cristnogol Gyfoes o dan ofal y Parchg Ddr Noel Davies ar ddydd lau rhwng 2 a 3.30 yng Nghapel y Nant.

FELINDRE

NEBO



Mae wythnosau a misoedd yn myned heibio yn gyflym, a Dydd Gweddi Byd-eang y chwirydd (Rhyngengwadol) wedi dod eto eleni. Thema y gwasanaeth yn Eglwys y Santes Fair yng Nghlydach eleni oedd Ffrydiau Yn Yr Anialwch oedd wedi ei baratoi gan Chwirydd yr Aifft ar y 7fed o Fawrth. Cymerwyd rhan gan eglwysi Cylch Cwmtawe, ar ran Nebo oedd Ann Evans, Heulwen Gill a Phyllis Bell. Diolch i'r tair am eu cyfraniad ac i Marlene Evans am ei threfniant hithau. Myra Mainwaring oedd i fod i gymryd rhan yn lle Phyllis ond oherwydd i'w mab Aled gael damwain erchyll yng Nghaerdydd bu'r gofid yn ormod iddi ar yr adeg hon ac Aled yn cael triniaeth yn ysbyty yr Heath, Caerdydd. Da yw clywed fod y driniaeth wedi bod yn llwyddiannus, er bod tipyn o amser eto iddo gryfhau a bod gyda'r teulu bach. Gwellhad llwyr a buan i ti Aled.

Diolch i'r ddau archwilwyr sef Phil Owen a Gillian Fowler am eu hamser i archwilio cyfrifon yr Eglwys.

GYMANFA

Bydd cymanfa Felindre, Salem, Elim a Phantycrws yn cael ei chynnal eleni ym Mhantycrws Ebrill 13 am 10.30. Arweinydd y Gymanfa fydd D Huw Rees. Croeso cynnes i bawb.

CYDYMDEIMLO

Rydym fel eglwys yn cydymdeimlo gyda teulu Cyril Clement ar farwolaeth ei frawd William George Clement. Yn ôl yr hanes roedd yn dipyn o gymeriad ac yn hoff o wisgo i fyny i greu adloniant. Roedd y gwasanaeth yng ngofal Parchg Canon Keith Evans.

Cydymdeimlwn hefyd gyda teuluoedd Lynne a Julie yn eu colled a'u hiraeth.

Yr un yw y brofedigaeth i John Tamburrano ar farwolaeth ei fam Janice Mary Tamburrano a hynny ar ôl cystudd hir. Cydymdeimlwn gyda'i phriod Mario a'u plant Anthony (Trefor), Elisa ac yn enwedig John ac yntau â gymaint o feddwl ohoni. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Chris Darvill.

Parhau yn y lleddf eto pan ddaeth cyfeillion i ddathlu bywyd Trina Hopkins yn Amlogfa Llanelli. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Canon John Walters. Cafwyd teyrnged gan ei merch Tracy a darn o farddoniaeth gan Yvonne Williams. Cydymdeimlwn gyda Dilwyn ei phriod, Andrew a Tracy ei phlant, Simone a Gareth ei phlant-yng-nghyfraith, a Tom ac Alys ei hwyrion.

YSBYTY

Parhau yn yr ysbyty yn Singleton mae Tom Stone a Iorwerth Jones, ac mae Vivian Arrowsmith Pleasant View a Mr. Williams y Bryngwyn yn ysbyty Treforys. Dymunwn fel eglwys a phentref wellhad llwyr a buan i'r pedwar ohonynt.

Sydyn fu salwch Brenda Jones, Brynteg ond ar ôl triniaeth mae yn gwella bob dydd. Diolch i'r paramedics am eu hymateb cyflym.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Dr. Carol Bell sydd yn arbenigo mewn

preifateiddio cwmnïau olew. Dechreuodd ei gyrfa yn cynllunio i ddatblygu corff gyda olew RTZ a Nwy. Mae ganddi PhD yn Archaeoleg ac yn cyfranogi mewn dysgu cyrsiau yng Ngholeg Prifysgol Llundain mewn Archeoleg ardal Mor y Canoldir.

NOSON GYMREIG



Cafwyd Noson Gymreig yng Nghanolfan Gweithgareddau Garnswllt i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd swper 3 cwrs ac hefyd adloniant gan plant Ysgol Gymraeg Felindre. Diolch i'r staff am eu hyfforddi ac i bawb am eu presenoldeb achos roedd wedi ei gefnogi yn dda.



PREGETHWYR

EBRILL

- 6 Miss Annie Derrick
- 13 Cymanfa Nebo ym Mhantycrws 10.30
- 18 Gwener y Groglith (10.30 Cymun, Parch Gerald Jones)
- 20 Mr. Morlais Owen
- 27 Mr. Owen Pugh

MAI

- 4 (i'w lenwi)
- 11 Mr. D.C. Davies (Cymun)
- 17, 18 Cyrddau Mawr Parch. Vincent Watkins
Sadwrn 6.30 Sul 10.30 a 2.30
- 25 Parch. Gareth Morgan Jones.

Dymuniadau gorau ar ran Nebo i Mrs. Hazel Charles Thomas a oedd i fod yn Nebo ar Mai 4ydd a sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth. Bydded i'n gweddïau fod gyda chwi.

CRAIG CEFN PARC

PANTYCRWYS

CYDYMDEIMLO

Fel cymuned cydymdeimlwn â theulu y diweddar Philip Gerwyn Jones, Clydach, gynt o Heol y Fagwr ar y Graig, a fu farw yn ddiweddar yn 74 blwydd oed. Yn ŵr i June, roedd yn dad a thadcu annwyl. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol yn Amlogfa Abertawe ar 7 Mawrth o dan ofal ei frawd, John Clifford Jones. Coffa da amdano.

ADFERIAD IECHYD

Dymunwn fel eglwys wellhad buan i Mr Vince James, Heol y Lôn, sydd bellach nôl gartref ar ôl cael triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Treforys.

YN YR YSBYTY

Fel cymuned a chymdogion dymunwn adferiad iechyd i Mr Vince George, Rhydygwin, sydd yn Ysbyty Treforys ar hyn o bryd. Mae Vince yn derbyn y Llais yn reolaidd, ond mae'r iechyd yn fregus ers rhai wythnosau. Gobeithiwn am ddyddiau gwell.

TREBANNWS



Ann Newman ac Elspeth Davies yn brysur yn gweini'r cawl ar ddechrau cyfnod y Grawys yn Eglwys San Mihangel Trebannws.

COFIO CYRIL IFOLD, GLOWR AC ARLUNYDD (1922-1986)

Faint ohonoch, tybed, glywodd am Cyril Ifold yr arlunydd o Glanrhyd? Rydych yn gyfarwydd â Josef Herman, mae'n siwr. Wedi ffoi rhag y Natsïaid yn Warsaw, Gwlad Pwyl cafodd groeso yn Ystradgynlais gan bortreadu'r glowyr a'u teuluoedd mewn modd unigryw. Ond un o'r ardal oedd Cyril, er bod ei dad-cu, Fred, yn hanu o Lundain ac yn arlunydd portreadau da iawn ei hun.



Cyril Ifold

Lladdwyd tad Cyril dan ddaear gan adael y crwt 8 mlwydd oed, a'r hynaf o'r plant, â'r cyfrifoldeb o gynorthwyo gyda'r dyletswyddau anghenrheidiol. Bu'n dosbarthu papurau newydd a chasglu golosg yn y ffatri tunplat lleol er mwyn cadw dau ben llinyn ynghyd.

Yn 15 oed, tra'n gweithio yn y ffatri, dechreuodd ei ddi-ddordeb arlunio amlygu a mynychodd ddosbarthiadau Arthur Pawson. Yn ddiweddarach tra'n gweithio yng Nglofa Ynyscedwyn derbyniodd hyfforddiant gan Alfred Janes, arlunydd enwog a thiwtor yng Ngholeg Arlunio Abertawe.

Siomwyd Cyril gan sylwadau Josef Herman o'i waith ond parhaodd i ddatblygu arddull paentio tirluniau lleol a gwynebau glowyr trwy ddefnyddio ffurf ciwbaidd ac onglor. Yn nifer o'i weithiau mae'n ychwanegu golau i

ganol y llun er mwyn creu ffurf cylch.

Symudodd i Flaendulais gan barhau i weithio o'i stiwdio wrth ochr y tŷ. Ymddangosodd ei waith mewn sawl arddangosfa leol. Yn y 1950au gwahoddwyd Cyril gan Undeb y Glowyr, Cangen Glofa Ynyscedwyn i greu baner iddynt. Aethpwyd â'r faner i Donetsk, yr Wcrain adeg dirpwyath rhyng-undebol a'i chyflwyno iddynt. Byddai'n braf cael gwybod am leoliad y faner erbyn hyn.

Daeth cyfle mawr Cyril ym 1986 pan wahoddwyd i arddangos ei waith yn y 'Glynn Vivian', Abertawe. Ar ganol y cyfnod o arddangos bu farw a chymaint oedd siom Agnella, ei wraig fel y casglodd ei holl waith ynghyd â'u dychwelyd adref. Ni werthwyd 'r un o'i ddarnau tan 2000 pan ymddangosodd nifer ohonynt yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth mewn arddangosfa 'Glowyr-Arlunwyr'. Dadorchuddiodd Tyrone O'Sullivan un o'i gampweithiau pan symudwyd casgliad Llyfrgell y Glowyr i Hendrefoelan.

Ganol Mawrth yn y Neuadd Les, Ystradgynlais cyflwynodd Caryl Roese, Caerdydd ddarlith feistrolgar ar Cyril Ifold. Mewn dull cartrefol soniodd am ei chysylltiad personol â'r arlunydd, y dylanwadau ar ei arddull gan ddangos sawl enghraifft o'i ddawn. Daeth sawl person â darlun gan Cyril a braf oedd cael cwmni mab ac wyres yr arlunydd ar y noson. Mae Caryl yn bwriadu casglu mwy o wybodaeth ynghyd er mwyn darparu cofiant cyflawn ohono. Os oes gennych lun neu wybodaeth cysylltwch â Caryl.

Trefnwyd y noson gan Sefydliad Celf Josef Herman ar adeg dathlu 30 mlynedd ers cychwyn streic y glowyr, 1984.

Mae'n fwrriad gan Caryl cyflwyno darlith ar yr arlunydd Will Roberts, Castell-nedd flwyddyn nesaf.



Caryl gyda rhai o weithiau Cyril Ifold

Ganwyd Caryl (Roberts) yn Ystradgynlais a bu'n mynychu dosbarthiadau Cyril Ifold yn ferch ifanc. Wedi gyrfa fel cantores proffesiynol derbyniodd swydd darlithwraig yn Adran Addysg Gerddorol UWIC cyn ei dyrchafu'n Bennaeth yr Adran yn ddiweddarach. Mae wedi parhau byw yng Nghaerdydd ers ei hymddeoliad.

YSGOLION

YSGOL GYNRADD CWMLLYNFELL

TWRNAMENT RYGBI CWMLLYNFELL

Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi Cwmllynfell ar ennill twrnament deg bob ochr ysgolion lleol yng Nghlwb Rygbi Ystradgynlais. Byddant yn cynrychioli Cwm Tawe yn y rownd nesaf yng Nghlwb Rygbi Dyfnant ar diwedd mis Mawrth. Aelodau'r tîm yw Mathew Thomas, Ioan Davies, Trystan Lewis, Rhodri Lewis, Ronnie Damant, Corey Lewis, Teifion Richards, Owain Hopkins, Kaden Davies, Morgan Morse, Leon Norton a Cellan Carter Jones. Da iawn fechgyn a phob lwc yn y rownd nesaf.

EISTEDDFOD YR URDD

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol ar gystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd eleni: Caris Llewelyn, Faye Woolcock, Nansi Morse, Owain Hopkins, Tirion Bevan, Erin Hopkins a Morgan Bowden. Roedd pob un ohonynt wedi gweithio'n galed i ddysgu'r darnau llefaru ac yn disgleirio ar y llwyfan. Rydym yn falch iawn ohonynt. Diolch i'r staff a rhieni am eu gwaith caled ac ymrwymiad wrth baratoi'r plant.

CEFNOGI ELUSEN

Cynhaliwyd cystadleuaeth pobi ymysg yr athrawon a diwrnod gwisgo lan fel sêr y byd chwaraeon i'r disgyblion ar 24ain o Fawrth er mwyn codi arian tuag at "Sport Relief". Casglwyd £200 yn ystod y dydd a rhannwyd y teisennau blasus rhwng y disgyblion a'r staff. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni a llongyfarchiadau i Mrs Gillian Davies ar ennill y gystadleuaeth goginio.

TLODI BWYD

Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 ar hyn o bryd yn astudio tloidi bwyd o gwmpas y byd ac o fewn eu milltir sgwâr. Fel rhan o'r astudiaeth maent wedi ymweld â'r banc bwyd yn Ystalyfera ac maent hefyd yn bwriadu cynhyrchu llyfr o ryseitiau cost effeithiol. O dan arweiniad Mrs Helen Thomas, athrawes Blwyddyn 3 a 4, byddant hefyd yn rhedeg clwb coginio nes diwedd Tymor yr haf. Rydym i gyd yn edrych ymlaen at weld fersiwn terfynol y llyfr ryseitiau. Da iawn Blwyddyn 3 a 4.

PROMS YN Y LIBERTY

Ar yr 21ain o Fawrth aeth rhai o ddisgyblion Cwmllynfell i Stadiwm Liberty er mwyn cymryd rhan fel aelodau o gôr ysgolion Cymraeg clwstwr Ystalyfera. Fe wnaethon nhw ganu nifer o ganeuon traddodiadol yn ystod gêm y Gweilch v Gleision cyn cael cyfle i aros i weld y gêm. Diolch yn fawr iawn i Ysgol Gyfun Ystalyfera am drefnu'r gweithgaredd. Profiad bythgofiadwy!

HANESYDD LLEOL

Fel rhan o waith thema Blwyddyn 3 a 4 ar y Rhufeiniaid, daeth Mr John Richards, hanesydd lleol i wneud gwaith gyda'r disgyblion. Fe ddysgodd y disgyblion am fwyd, cartrefi, dillad, addysg, rhyfel a bywyd bob dydd y Rhufeiniaid ym Mhrydain yn ystod Oes y Rhufeiniaid. Gwersi difyr dros ben!

POBI BARA

Daeth y cwmni bara Warburtons i'r ysgol i weithio gyda Blwyddyn 5 a 6 yn ddiweddar. Trafodwyd hanes y cwmni, gwahanol fathau o fara a phwysigwydd glendid wrth drin bwyd. Yn ystod sesiwn y prynhawn darparwyd cyfle i bob disgybl wneud torth o fara eu hunain. Roedd hyn yn gyfle gwych iddynt ddatblygu eu sgiliau rhifedd, cyfathrebu a gweithio fel tîm.

GWEITHDY JOSEF HERMAN

Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn parhau i fod ynghlwm â

phrosiect Josef Herman gyda Neuadd Les Ystradgynlais. Mae'n rhoi pleser i ni weld gwaith ein disgyblion yn cael ei arddangos yn y Neuadd Les ac yng Nghanolfan y Celfyddydau, Pontardawe hefyd. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos nes ymlaen yn y flwyddyn yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd. Llongyfarchiadau i'r disgyblion am eu gwaith da.

YSGOL GYNRADD FELINDRE

LLWYDDIANNAU EISTEDDFODOL

Llongyfarchiadau i bob disgybl a gynrychiolodd yr ysgol yn yr Eisteddfod Gylch yn ddiweddar. Daeth Bronwen Morgan yn gyntaf yn yr unawd telyn a dymunwn yn dda iddi yn yr Eisteddfod Sir. Braff oedd gweld pob un o'r cystadleuwyr yn magu hyder ar lwyfan o flaen cynulleidfau fawr.

GWEITHDY CANU CÂNSING

Rydym yn edrych ymlaen at groesawu Aled Powys Williams ac Osian Rowlands o Brosiect CânSing i'r ysgol i arwain gweithdai canu gyda holl blant yr ysgol.

CYSTADLEUAETH GORAWL I YSGOLION

Bydd côr yr ysgol yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth i ysgolion a drefnir gan Gôr Meibion Clwb Rygbi Treforys yng Nghapel y Tabernacl, Treforys ar y 9fed o Ebrill. Dewch yn llun i gefnogi ein cantorion talentog!

YMWELIADAU

Ymwelodd plant y Babanod â Pizza Express yn Abertawe yn ddiweddar er mwyn gweld sut mae gwneud pizza a chawsant gyfle i greu eu pizza eu hunain a'i fwyta wedyn wrth gwrs! Ar ôl taith o gwmpas Amgueddfa'r Glannau yn y prynhawn gwnaed yn fawr o'r tywydd braff a threuliyd peth amser ar y traeth ym Mae Abertawe.

Aeth yr ysgol gyfan hefyd i archfarchnad Tesco ym Mhontarddulais. Cafodd y plant eu tywys o gwmpas y siop a gwnaethant weithgareddau'n ymwneud â'r bwydydd ffres. Buont hefyd yn blasu cawsiau, yn dysgu am waith y pobyddion ac yn gweld ble a sut mae cynnyrch yn cael eu storio.



YSGOL GYNRADD Y WERN

GORYMDAITH GŴYL DDEWI

Braf oedd ymuno gydag ysgolion Powys ar gyfer dathliad Gŵyl Ddewi. Casglodd pawb yn Eglwys St Cynog cyn bendithio'r baneri hyfryd a chael cyfle i orymdeithio ar hyd prif stryd caeedig Ystradgynlais gan arddangos y baneri i'r cyhoedd a wnaeth ymgynnull yng nghanol y dref. Cafwyd adloniant wedyn yn y neuadd les. Fe wnaeth y disgyblion fwynhau yn fawr a chael pleser o gwrdd a ffrindiau o ysgolion cyfagos, er mewn sir gwahanol. Bu'n llwyddiant ysgubol a diolch am y gwahoddiad.



DIWRNOD Y LLYFR

Roedd yn hyfryd dathlu Diwrnod y Llyfr unwaith eto gyda nifer fawr o'r disgyblion yn gwneud ymdrech fawr i wisgo i fyny fel un o'u hoff gymeriadau allan o lyfr. Aeth nifer o ddisgyblion Blwyddyn 6 ati i ymchwilio, datblygu a chyflwyno ambell gymeriad newydd. Roedd y traddodiadol wedi eu cynrychioli hefyd, *Fantastic Mr Fox*, *Wally*, *Alice in Wonderland*, a *Superman* a ddaliodd y sylw. Cyflawnwyd gwaith amrywiol ar lyfrau gan gynnwys y plant hŷn yn cyflwyno stori i'r babanod. Diwrnod gwych!

TRAWSGWLAD

Roedd y tywydd yn fendigedig a phawb yn ysu i gystadlu yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn o'r gystadleuaeth trawsgwlad. Aeth tîm o chwe merch a phump bachgen i Goed Gwilym i rasio yn erbyn nifer o dimau sir Abertawe. Perfformiodd tîm y merched yn wych ar y noson gyda Meabh a Paige yn amlygu eu hunain. Cyfranodd yr holl ferched gan sicrhau mai yn yr ail safle y gorfennodd y tîm. Pedwerydd oedd safle tîm y bechgyn ond fe enillodd Kian ras y bechgyn er mai ym mlwyddyn 5 y mae ef, Perfformiadau gwirioneddol wych gan bob un. Da iawn a diolch am eich ymroddiad dros yr ysgol.

DATHLIADAU DYDD GŴYL DEWI



Yn ôl y traddodiad yn ein hysgol rydym yn cynnal diwrnod o weithgareddau i ddathlu diwrnod ein nawdd Sant. Mae gwaith cartref amrywiol yn cael ei osod o flaen llaw gan gynnwys heriau mathemategol, ysgrifennu darn gwreiddiol o farddoniaeth a chreu darn o waith celf a chreffft ar y testun Cymru fy Ngwlad. O dan arweiniad Mrs Flowers a Mr Jones mae'r plant wrth eu boddau yn ennill pwyntiau i'w llysoedd drwy ateb cwestiynau, cyflwyno eitemau amrywiol megis sgetsiau byr neu ddawnsfeydd a chanu gan hefyd gyflwyno'u gwaith cartref. Ar ddiwedd yr holl adloniant mae'r enillwyr yn cael eu

datgan, ond yr hyn maent i gyd yn edrych ymlaen ato fwyaf yw dawns Mr Urdd gyda Mrs Flowers yn arwain y ffordd. Diwrnod campus. Diolch yn fawr i Mrs Flowers a Mr Jones.

RAS FEICIO SUSTRANS



Eleni mae'r ysgol yn cymryd rhan yn ras feicio Sustrans am y bumed mlynedd yn olynol. Rydym wedi cael cryn dipyn o lwyddiant gan mai ni yw pencampwyr ysgolion bach Cymru dros y dair blynedd diwethaf ond, yn bwysicach, mae sgiliau beicio'r plant wedi gwella yn aruthrol dros y cyfnod ac mae nhw'n mwynhau pob munud o'r her. Mae hyder y disgyblion wedi tyfu dros y blynyddoedd ac yn sicr mae cael rhywbeth i anelu ato yn sbardun i rai ddefnyddio'u beiciau yn amlach neu i ddysgu sut i feicio. I gychwyn y cyfnod rydym bob blwyddyn yn seiclo o Ystalyfera hyd at y Rec ym Mhontardawe ac mae aelodau o'r staff, rhieni, cynorthwyr, ffrindiau ysgol, cyn-ddisgyblion a phobl sydd yn gwasanaethu'r gymuned leol yn cael gwahoddiad i ymuno gyda ni ar ein taith. Mae'r disgyblion yn elwa ac yn mwynhau'n fawr cael y cyfle i feicio gydag oedolion ac yn ymfalchïo yn y sylw ychwanegol. Hefyd rhaid diolch i'r sir am osod wyneb newydd ar y buarth sydd wedi hwyluso'r profiad o feicio i'r disgyblion.

RYGBI CYSTADLEUAETH TAG URC

Mae'r Undeb mewn cydweithrediad a'r Gweilch, ac yn benodol Liam Evans, wedi trefnu nifer o wyliau rygbi dros y Gaeaf er mwyn sicrhau fod disgyblion ein hardal yn cael y cyfle i chwarae rygbi. Hyd yn hyn mae'r cystadlaethau wedi eu cynnal yn Llandarcy ac mae hyn wedi rhoi profiad anhygoel i bob un sydd wedi cael y cyfle i ddefnyddio'u cyfleusterau. Gan fod y tywydd wedi gwella mae clybiau rygbi'r Gymuned nawr yn ganolbwynt, felly aeth tîm o fechgyn a tîm o ferched i Abercraf er mwyn cynrychioli'r ysgol. Mae'r merched erbyn hyn wedi datblygu sgiliau trafod gwych, mae'n nhw'n hyderus yn rhedeg gyda'r bêl ac yn medru curo gwrthwynebydd gydag ambell ochr-gam neu bas gelfydd. Mae'r bechgyn hefyd yr un mor benderfynol, ac, er gwaetha'r nifer bychan o fechgyn sydd ym mlwyddyn 5 a 6, mae gan un neu ddau ohonynt ddawn a sbarc ychwanegol sydd yn ysbrydoli'r gweddill i lefel uwch. Enillodd y bechgyn pob gêm yn yr ŵyl yn Abercraf gyda phob un yn cyfrannu. Sgoriodd y mwyafrif nifer o geisiau gyda Kian, Kai a Josh yn arwain y ffordd. Bore gwych i'r disgyblion. Diolch o galon i Liam am drefnu a rhoi'r cyfle i blant ein hysgol.

YSGOL GYNRADD PONTARDAWE

LLWYDDIANNAU EISTEDDFODOL

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Cafwyd nifer o lwyddiannau. Fe fydd Emyr, Guto, Dewi, Carys a Tirion yn cynrychioli'r ysgol yn y Sir. Byddwn hefyd yn cystadlu gyda'r côr, parti unsain a pharti llefaru. Pob lwc i chi gyd!

Cynhaliwyd eisteddfod dalentau er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cafodd y plant gyfle i berfformio eitemau, megis dawnsio gwerin, canu, adrodd, gymnasteg a dawnsio disgo. Llongyfarchiadau enfawr i Iestyn Harris Barfoot ar ennill y gadair.

TAITH I SAIN FFAGAN

Mwynhaodd blwyddyn 3 a 4 wibdaith i Sain Ffagan er mwyn dysgu mwy am fywyd yn Oes Fictoria. Cafwyd hwyl yn yr ysgolion. Roedd yr athrawon tipyn llymach!

YSGOL GYFUN YSTALYFERA

CÔR ARDDERCHOG!



Gwych yw'r unig air i ddisgrifio perfformiad côr cytûn clwstwr Ystalyfera yn Stadiwm y Liberty ar yr 21ain o Fawrth. Cafwyd canu bendigedig ar y terasau a buddugoliaeth ardderchog i'r Gweilch! Gwir yw dweud ein bod yn mynd o nerth i nerth!

SIALENS MATHEMATEG



Llongyfarchiadau i 10 o ddisgyblion blwyddyn 11 Mrs Pocock am lwyddo i ennill tystysgrifau yn y gystadleuaeth Maths Challenge. Cafodd Nia Messer, Steffan Morgan, Jacques Mahe a Rosie Williams wobwr aur; Isabel Walker a Rhodri Locke wobwr arian; Lewis Corrigan, Dafydd James, Phoenix Williams a Kelsey Davies wobwr efydd. Gwych!

Y CHWECHED YN LLUNDAIN



Cafodd disgyblion y Chweched sy'n astudio Celf a Dylunio neu Gyfryngau daith ardderchog o amgylch orielau ac amgueddfeydd Llundain yn ddiweddar. Diolch i Mr Rowlands a Mr Micah am arwain y daith arbennig hon.

RYGBI TRIARDEG BLWYDDYN 8



Cafwyd canlyniad ardderchog, yn erbyn Ysgol Hadleigh High gyda buddugoliaeth o 54-10 er mwyn sicrhau lle yn rownd yr 8-olaf. Sgoriodd Ben Griffin (ateb Ystalyfera i George North...!) chwe chais ac fe gafodd Declan Thomas a Daniel Hiscocks ddau gais yr un. Pob lwc i'r tîm yn eu gêm nesaf.



CYFEILLION O GANADA

Bu'n hyfryd croesawu timau o ysgol Shawnigan Lake, Vancouver, Canada i Ystalyfera ar gyfer dwy gêm rygbi a bu'n gyfle gwych i greu ffrindiau newydd. Bu disgyblion Ystalyfera yn ymweld â'r ysgol hon yn Canada ddwywaith o'r blaen ac roedd yn hyfryd gweld hen ffrindiau unwaith eto. Yn eu plith Rhodri Samuel, cyn-ddisgybl o ysgol Ramadeg Ystalyfera a fagwyd yng Nghwmgors. Roedd yn wych croesawu'r bechgyn – a'u clywed yn canu 'Calon Lan' mor egnïol. Dymunwn yn dda i'n ffrindiau newydd ac edrychwn ymlaen at gael cwrdd eto yn y dyfodol!

GIGS Y GWACH CHWEFROR '14



Trefnwyd i Al Lewis a'r Band i chwarae ar Nos Wener, 28ain o Chwefror yn Gigs y Gwach. Cafwyd gig anhygoel yn y Gwachel unwaith eto. Dechreuodd Al y noson gyda set acwstig, cyn i weddill y band ymuno â fe ar y llwyfan wedi'r toriad. Roedd y Gwachel yn llawn dop gyda phobl wedi dod o bell i glywed y band, oedd wedi teithio'r holl ffordd o Lundain i fod yn y Gwachel.

Perfformiwyd nifer o ganeuon hen gyfarwydd, ond hefyd cawsom glywed am y tro cyntaf nifer fawr o ganeuon fydd ar yr albwm newydd, fydd ar gael yn fuan iawn. Hoffai'r Fenter iaith ddiolch i drigolion yr ardal ac i staff y Gwachel am eu cefnogaeth gyson, yn ogystal â Jac ar y system sain.

CYSTADLEUAETH FFENEST SIOP PONTARDAWE

Trefnodd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot mewn partneriaeth â Chyngor Tref Pontardawe a'r Siambr Fasnach gystadleuaeth ffenest siop i gyd-fynd gyda Gŵyl Ddewi. Braff nodi bod nifer o'r siopau wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth. Cafodd ei beirniadu gan Faer Pontardawe, Sue Northcott.

Yn dilyn tipyn o bendroni, penderfynwyd taw'r busnes oedd yn haeddiannol o'r wobwr gyntaf oedd Siop Elusennol Acorns, ac fe gyflwynwyd sic o £100 i staff y siop gan y Maer.



Hoffai'r Fenter iaith ddiolch i'r Maer a Chyngor Tref Pontardawe, Siambr Fasnach Pontardawe ac yn enwedig y busnesau fu'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth.

NOSON LAWEN CWMLLYNFELL

Ar nos Sadwrn, 8fed o Fawrth fe drefnwyd Noson Lawen yn Neuadd Cwmllynfell gan Bwyllgor y Neuadd ar y cyd gyda Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot gyda chefnogaeth Partneriaith Aman Tawe.

Bu Noel James y digrifwr o Bontardawe yn arwain y noson yn ei ffordd unigryw, ac yn ogystal cafwyd perfformiadau gan Gôr Meibion Dyffryn Aman ac Eirlys Bellin (Rhian Madam Rygbi). Bu Noel a'r côr yn rhannu'r llwyfan ar gyfer yr hanner cyntaf gydag Eirlys yn ymddangos gyda'r côr yn yr ail hanner.

Yn ystod y nos, cafodd y gynulleidfa gyfle i ganu gyda'r côr. Fe drefnodd Ian Llewelyn arweinydd y côr bod geiriau dwy gân wedi'i dosbarthu i'r gynulleidfa o flaen llaw sef 'Calon Lân' ac 'Oes Gafr Eto', a chafwyd tipyn o sbri yn ystod yr ail gân!

Hoffai'r Fenter â'r Bartneriaith ddiolch i Bwyllgor y Neuadd am eu cydweithrediad, Noel, Eirlys, Ian Llewelyn a Chôr Meibion Dyffryn Aman gyda'i gyfeilydd Bethan Phillips, am roi

noson wych i ni, ac i bawb a fynychodd yr achlysur. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y digwyddiad nesaf.

NOSON GYMRAEG CYMDEITHAS TREFTADAETH A IAITH ARDAL YSTRADGYNLAIS

Ar nos Iau 27ain o Chwefror, cynhaliwyd Noson Gymraeg yn Neuadd Les Ystradgynlais, ar y cyd gyda Chymdeithas Treftadaeth a Iaith Ardal Ystradgynlais. Roedd yn bleser mawr i gael Dylan Jones o Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru i siarad â ni ar bysgota â rhwydi lât ar afon Hafren. Roedd y pwnc yn ddiddorol iawn. Hoffwn ddiolch i Dylan Jones, a staff ac aelodau Neuadd Les Ystradgynlais a Chymdeithas Treftadaeth a Iaith Ardal Ystradgynlais. Edrychwn ymlaen at y digwyddiad nesaf.

NOSON CWIS YN NEUADD CWMLLYNFELL



Cynhaliwyd noson cwis Neuadd Cwmllynfell ar nos Wener 14eg o Chwefror o dan waith Pwerdy Iaith Aman Uchaf. Hyfryd oedd gweld 5 tîm yn cymryd rhan a buom yn hynod o lwcus i gael Edwyn Williams fel cwis feistr ar gyfer y noson.

Daeth tua 25 o bobl i'r cwis ac roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o bobl yn cymryd y cyfle i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd nifer o gwestiynau eu cyflwyno gan Edwyn ar bynciau amrywiol trwy ddangos sleidiau a lluniau yn ogystal â chwarae clipiau o gerddoriaeth a fideos. Wedi cwblhau'r Cwis, cyflwynwyd gwobr ariannol i'r tîm buddugol sef tîm "Clwb Rygbi Cwmllynfell."

Llongyfarchiadau i'r tîm a enillodd a diolch i bawb a gymerodd ran. Hoffwn ddiolch i Edwyn Williams am baratoi'r cwestiynau a chyflwyno'r noson. Diolch hefyd i staff Neuadd Cwmllynfell am y croeso cynnes. Edrychwn ymlaen at drefnu cwis arall cyn bo hir!

GWEITHDY RADIO YN YSGOL MAESYDDERWEN

Ar ddydd Mercher 5ed o Chwefror, cynhaliodd PartnerIAITH Aman Tawe weithdy radio i 25 o ddisgyblion Cymraeg Ysgol Maesydderwen. Marc Griffiths o Radio Cymru, oedd wedi arwain y gweithdy. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad o greu rhaglen hanner awr ar gyfer y wefan www.stiwdiobox.com. Cawsom sawl eitem wahanol ar gyfer y rhaglen wrth y disgyblion, a hefyd roedd y disgyblion wedi



creu darn bach ar gyfer ail raglen o'r gyfres Radio Aman Tawe a oedd wedi dechrau ar y 6ed o Chwefror am 8y.h. Felly, os hoffech wrando ar raglen Ysgol Maesydderwen, ewch i wefan Stiwdiobox, neu os hoffech wrando ar ddisgyblion Ysgol Maesydderwen ar Radio Aman Tawe ewch i www.radioamantawe.co.uk a chliciwch ar wrando eto. Diolch i Marc Griffiths am wneud y gweithdy a hefyd i'r staff a disgyblion yr Ysgol am gymryd rhan. Edrychwn ymlaen at weithio ar y cyd gyda'r Ysgol yn y dyfodol.

LLYFRAU LLAFAR CYMRU



www.llyfrauallafarcymru.org

**DYMA WASANAETH GWIRFODDOL
SY'N RHOI CYFLE I DDEILLION A'R
RHAI SY'N CAEL TRAFFERTH I
DDARLLEN PRINT GLYWED LLYFRAU
CYMRAEG A SAESNEG AM GYMRU AR
CD NEU GASET.**

**Mae na gannoedd a allai fod yn yn
mwynhau ein "llyfrau", "cylchgronau" a
"phapurau bro".**

**Os gwyddoch am unrhyw un - ffoniwch
01267238225**

*Siarad Cyfrolau
Noddwyd yr hysbysel hon gan
Gronfa Ray Gravel*



**ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

LLYTHYR

Annwyl Gyfaill,

Calonogol iawn, dros y misoedd diwethaf, yw clywed pobol ymhob rhan o dair sir y gorllewin yn datgan eu cefnogaeth i Radio Beca. Ers yn agos i ddwy flynedd nawr mae criw bach wedi bod yn cwrdd yn gyson er mwyn gwneud y gwaith caib a rhaw o sefydlu gorsaf radio Gymraeg newydd yn y gorllewin.

O Geredigion y daeth y syniad yn gyntaf. Daeth hi'n amlwg, ryw dair blynedd nôl, nad oedd fawr o ddi-ddordeb lleol gan berchnogion newydd Radio Ceredigion wrth i'r lleisiau Cymraeg gael eu dileu yn weddol fach o slic.

Roedd llawer o bobol yn sir Benfro yn teimlo'r golled hefyd. Siom hefyd ddaeth a bobol sir Gâr i'r sgwrs – diffyg Cymraeg Radio Carmarthenshire a cholli y diweddar Grav a Marci-G oddi ar Radio Cymru.

O'r cychwyn cyntaf, troi siom a cholled yn egni o adeiladu i'r Gymraeg yw canolbwynt **Radio Beca**. Dywedwyd wrth benaethiaid Ofcom yn Llundain bod angen patrwm gwahanol ar ddarlledu yng ngorllewin Cymru. Fod yr hyn roedd y cwmnïau Prydeinig yn darparu ddim yn lleol o gwbl. Fod 150,000 o siaradwyr Cymraeg y tair sir yn haeddu gwell gwasanaeth.

Mae'r frwydr honno wedi'u hennill. Mae seiliau cyfreithiol Radio Beca wedi'u gosod. Mae'r cynllun busnes wedi'i gynllunio. Y cam nesaf yw 'neud iddi ddigwydd. Adeiladu.

A dyma bwynt canolog y llythyr hwn. Criw bach sydd wedi bod wrthi hyd yn hyn. Er mwyn adeiladu'r orsaf ei hun – gwneud hi'n bosib i ni ddarlledu oddi ar fastiau Blaenplwyf, Preseli a Charmel, Cross Hands – mae angen i'r criw bach droi yn **bawb** sy'n dweud eu bod nhw'n cefnogi **Radio Beca**. Yn syml, ma' rhaid i gefnogwyr **Radio Beca** droi'n gyd-adeiladwyr **Radio Beca**.

Siwt mae gwneud hynny? Trwy ymuno â'r miloedd ar draws y tair sir sy'n buddsoddi £100 yn **Radio Beca** a thrwy hynny ddim yn gyd-berchnogion ar yr orsaf. Fyddwch chi ddim ar eich hennill yn ariannol o wneud hynny. Ond mi fyddwch yn creu ffrwd newydd o egni i'r Gymraeg – ffrwd y bydd neb yn ei rheoli heb law ni, pobol y gorllewin.

O ddydd Gŵyl Ddewi ymlaen gallwch ymaelodi naill ai trwy law y cynrychiolwyr lleol neu drwy gysylltu yn uniongyrchol â Sian Evans (07816 386651) neu finnau (07813 173155) neu swyddfa **Radio Beca** (01570 471500). Does dim rhaid talu'r £100 yn un swm, gyda llaw.

Cyd-egniwn y Gymraeg. Cyd-adeiladwn **Radio Beca**.

Diolch am eich sylw,

Euros Lewis

www.radiobeca.co.uk yhol@radiobeca.co.uk

MYFYRWYR DRAMA - YSGOLORIAETH NEWYDD SBON

Yn unol â nod Cymdeithas y Ddrama Gymraeg Abertawe (dramaabertawe.com) o hybu'r ddrama Gymraeg yn yr ardal, mae'n bleser ganddi gyhoeddi sefydlu ysgoloriaeth newydd sbon sy'n agored i unigolion sydd am ddilyn cwrs uwch yn un o ddisgyblaethau creadigol y ddrama.

Cynigir y swm o £1500 am gyfnod o flwyddyn. Gwahoddir ceisiadau gan unigolion 18+ oed (ar 1 Medi 2014) sydd â'u bryd ar ddilyn cwrs gradd, ôl-radd neu gyfatebol ym meysydd actio, sgriptio, cynhyrchu neu gyfarwyddo. Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr o ddalgylch y gymdeithas, sef **Abertawe, Pontarddulais, Llanelli, Cwm Gwendraeth, Cwm Aman, Cwm Nedd a Chwm Tawe**.

Gweinyddir y broses o wobrwyo'r ysgoloriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. **Am ffurflen gais a/neu fanylion pellach, cysyllter â post@dramaabertawe.com**

Y dyddiad cau am geisiadau yw 30 Mehefin 2014.

(Mae'r Gymdeithas wedi bod yn weithgar am yn agos i ganrif erbyn hyn - ers 1919 a bod yn fanwl gywir - ac ar hyd y blynyddoedd mae wedi rhoi'r cyfle cyntaf i restr hir o actorion, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr a dramodwyr sydd wedi mynd ymlaen i ddilyn gyrfaedd proffesiynol a thyfu'n enwau cyfarwydd ar lefel cenedlaethol a thu hwnt.)

TUDALEN I'R PLANT

HARDDWCH?



Ar y teledu, mewn cylchgronau ac mewn hysbysebion - ymhobman o'n cwmpas mae lluniau pobl hardd ac o'r pethau sy'n gallu ein gwneud yn hardd - siampŵ arbenning, colur, lliw i'r ewinedd, dillad ffrasiynol.

Mae hyd yn oed pob math o bethau i harddu bechgyn a dynion hefyd. Mae'r selebs bob amser yn ddeniadol on'd ydyn nhw? Ac rydyn ni eisiau bod yn debyg iddyn nhw. Ond pe baen ni'n cwrdd â nhw yn eu tŷ eu hunain y peth cyntaf yn y bore, tybed fasen nhw mor hardd ag yn y lluniau. Sut rai ydyn nhw fel pobl?



Mae pawb eisiau edrych ar eu gorau ond y peth pwysig ydy sut berson ydych chi. Does dim pwynt edrych yr harddaf yn y byd os nad oes neb yn eich hoffi chi. Mae bod yn rhywun neis yn fwy pwysig nag edrych fel celeb, on'd ydy?

Mae hi yr un fath ym myd yr anifeiliaid.



Rydyn ni i gyd yn cytuno bod y teigr a'r arth gwyn yn anifeiliaid hardd.



Y panda hefyd. Yn ystod yr haf mae pobl wedi mynd dros ben llestri efo'r ddau banda yn Sw Caeredin.

Mae mwy o ymwelwyr nag erioed wedi bod yno i'w gweld gan obeithio bod cenawon bach yn mynd i gael eu geni (ond doedd dim). Mae'r panda mor boblogaidd am ei fod yn hardd ac yn anwesog (*cuddly*).

Ond wyddoch chi beth? Yn ôl yr arbenigwyr mae'r panda yn anifail braidd yn dwp. Efallai fod gan y morgrug bach fwy o synnwyf cyffredin.



Erbyn hyn mae grŵp o bobl wedi ffurfio cymdeithas newydd - Cymdeithas Er Cadw Anifeiliaid Hyll. Maen nhw wedi blino arnon ni yn canolbwyntio ar yr un anifeiliaid pert o hyd ac o hyd - ein ffefrynnau. Dyma rai sydd ddim mor hardd!



Aye-Aye

Llygoden dyrchol foel



Mwnci trwynog

Pysgodyn blob



Mae'n siŵr eich bod wedi gweld rhaglenni natur ar y teledu gyda miloedd ar filoedd o wildebeest yn trawsfudo (*migrate*) fel byddin enfawr ar hyd gwastadeddau'r Serengeti yn Nwyrain Affrica. Dydyn nhw ddim yn anifeiliaid hardd o gwbl.

Ond dyma un o'r golygfeydd mwyaf rhyfeddol a hardd ym myd natur, meddai Syr David Attenborough.

Mae pob anifail yn y byd yma'n werthfawr, hardd neu hyll.

Mae pob anifail yn arbenning ac yn werth edrych ar ei ôl.

Amrywiaeth - dyna sy'n gwneud y byd yn ddiddorol, amrywiath mewn anifeiliaid ac amrywiaeth mewn pobl